tafod elái

GORFFENNAF 2022

Rhif 369

Pris £1

Cyhoeddi Canlyniadau'r Cyfrifiad

Disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail fu'n datgelu canlyniadau poblogaeth Cymru Cyfrifiad 2021. Roedd yr ysgol wedi ennill cystadleuaeth *Gadewch i ni Gyfrif* a daeth y cymeriad Jen Woolford i'r ysgol i helpu'r disgyblion gyhoeddi ffigurau 2021.

Mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 44,000 (1.4%) ers 2011 ac mae poblogaeth Rhonddda Cynon Taf hefyd wedi codi 1.4% i 237,700. Mae Caerdydd ymhlith yr ardaloedd sydd wedi tyfu fwyaf gyda'r boblogaeth i fyny 4.7% i 346,090.

Cyhoeddir rhagor o ffigyrau ar gyflwr y wlad dros y misoedd nesaf.

Ymestyn Ffatri Meisgyn

Mae cwmni Renishaw wedi cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi £50m i ehangu a gwella eu gweithfeydd ym Meisgyn. Mae'r cwmni yn cyflogi 650 o weithwyr ar y safle ac mae'n fwriad i adeiladu dwy neuadd gynhyrchu newydd a chanolfan lles i'r gweithwyr erbyn 2024. Mae'r cwmni yn disgwyl i'w gwerthiant gynyddu yn y dyfodol a thrwy gynyddu effeithlonrwydd eu hadeiladau disgwylir gyrraedd targed i leihau allyriant y cwmni i zero erbyn 2028.

Mae Renishaw ymhlith y cwmniau mwyaf blaenllaw yn y byd ym maes peirianneg technolegol ac yn cyflenwi darnau ar gyfer cynhyrchu melinau gwynt, injan jet, deintyddiaeth a llawfeddyginiaeth. Mae'n gwmni blaenllaw ym maes cynhyrchu cyd-rannau drwy argraffu 3d.

Hwyl Parti Ponty

Band Llareggub yn Parti Pwll Ponty

Bwrlwm y perfformio ar y bandstand

Al Lewis a'r Band yn y Gig Nos Sadwrn

Sion Tomos Owen yn gwneud gwawdluniau yn y glaw!

Parti Pwll Ponty

Adran Bro Taf

Martyn Geraint yn cyflwyno Côr Godre'r Garth

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
29 Gorffennaf 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Pen-blwydd Arbennig
Dymunwn benblwydd hapus iawn i Ann Jones, Maes y Sarn, wrth iddi ddathlu penblwydd arbennig ym mis Gorffennaf.

Priodas Aur
Llongyfarchiadau gwresog a'n dymuniadau gorau i Gill a Wyn Rees sy'n dathlu eu Priodas Aur ym mis Gorffennaf.

Pentyrch Rangers
Ddechrau mis Mehefin ar fore Sul heulog braf roedd Parc y Dwrlyn yn ferw i gyd wrth i'r Pentyrch Rangers ddathlu tymor o weithgarwch pêl-droed drwy gynnal eu diwrnod gwobrwyo blynyddol. Llongyfarchiadau i Ieuan Griffiths, Tŷ Gwyn ar ennill tlws chwaraewr y flwyddyn. Yn y llun gwelir ef yn derbyn ei wobr oddi wrth un o'r hyfforddwyr, Mike Hennessy.

Cymdeithas Hanes Pentyrch
Cyfarfod mis Mehefin oedd cyfarfod olaf y tymor presennol a braf oedd gallu croesawu Allan Cook o Radur i sôn am Lwybr y Pererinion o Landaf i Benrhys. Mae'r llwybr 21 milltir wedi goroesi ers y Canol Oesoedd ac yn ymlwybro o Landaf drwy Radur, yna Pentyrch, y Groesfaen ac ymlaen at Benrhys drwy Lantrisant.

Diwrnod Agored Capten Golff y Merched
Roedd Mehefin 21ain yn ddiwrnod arbennig i Bethan Griffith. Hwn oedd Diwrnod Capten y Merched yng Nghlwb Golff Creigiau. Bu'n achlysur llwyddiannus iawn – yr haul yn gwenu a rhyw hanner cant o ferched wedi troi allan i gefnogi – golff yn ystod y dydd a chinio gyda'r hwyr. Diolch i Bethan am ei threfniadau ac i Iwan am arddangos ei sgiliau yntau yn y gegin yn gweini diod a sgoniau blasus i bawb.

Merched Pentyrch yn cefnogi'r Capten.

Criced
Llongyfarchiade mawr i dîm criced Pentyrch ar gyrraedd yr 16 ola ym Mhencampwriaeth pentrefi Gwledydd Prydain - y tîm ola o Gymru i ddal i fod yn y gystadleuaeth. Dyma'r pella mae'r pentre erioed wedi cyrraedd yn y Bencampwriath bwysig hon - bydd y ffeinal yn cael ei chynnal yn ôl yr arfer ar faes enwog Thomas Lord yn Llundain. Dyna'r abwyd i fois y pentre!! Daw'r llwyddiant ar ôl buddugoliaeth arbennig ganol Mehefin o 33 o rediade yn erbyn tîm cryf Congresbury - Pencampwyr De Orllewin Lloegr. Ond mae'r her yn y rownd nesa yn fwy fyth ar Sul cyntaf Gorffennaf yn erbyn Goatacre o Swydd Wiltshire sy wedi ennill y tlws ddwywaith yn ystod y degawd diwetha. Pob hwyl i'r bechgyn - dewch i gefnogi. Oni fydde'n braf cael trip bach i Lundain i Lord's ganol Mis Medi!!

Ond yn anffodus cafwyd torcalon llwyr yn y gêm honno ar Sul 3ydd Gorffennaf ar ôl y diweddglo mwya dramatig a chreulon posib. 126 o rediade oedd angen ar Bentyrch i ennill. Roedd y fuddugoliaeth yn edrych yn gwbwl, gwbwl sicir â hwythe'n 124 am 7 gyda 4 pelawd a 3 wiced ar ôl. Ond - yn syfrdanol - fe gollwyd y 3 wiced ola mewn un belawd heb ychwanegu'r un rhediad! Colli felly o un rhediad, a'r freuddwyd o gyrraedd Lord's wedi'i chwalu am dymor arall.

(HLlD)

Tîm Pentyrch 29 Mai 2022

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Priodas Hayley a Russ
Dydd Sadwrn 4ydd Mehefin cafodd Hayley a Russ ddiwrnod i'w gofio! Priododd y ddau ym Mhontypridd - priodas fach, gynnes, gartrefol. Chwech ar hugain o westeion, dau was priodas, pedair morwyn a theulu agos. Cynhaliwyd y wledd mewn marquee yng ngardd rhieni Hayley - Stuart ac Eryl Thomas, Creigiau! Y cyfan wedi ei addurno yn chwaethus a lliwgar iawn. Mae'n stori garu go iawn! Y ddau wedi gweithio gyda'i gilydd am ugain mlynedd - ond bedair blynedd yn ôl cynigiodd cyfaill y dylai Russ wneud cymwynas â Hayley - a threulio'r p'nawn yn torri ei lawnt - tair troedfedd o dyfiant! Torrwyd y gwair - cipiwyd calonnau - ac mae'r gweddill yn hanes! Llongyfarchiadau mawr eich dau - diolch am rannu'r stori - pob dymuniad da wrth ichi deithio i Ibiza ym mis Gorffennaf i dderbyn bendith ar y briodas ar y traeth yng nghwmni eich ffrindiau agosa. Pob hapusrwydd i chi'ch dau i'r dyfodol! A phen blwydd hapus, Hayley yn ddeugain!

Gwellhad llwyr a buan
Anfonwn ein cofion gorau at Gary Samuel a dymunwn adferiad llwyr a buan iddo. Yn ein meddyliau, Gary.

Croeso cynnes iawn i'r ardal!
Braf cael estyn croeso i Alun Wyn Bevan a'i wraig Jill, sy' wedi symud o Gastell-nedd yn ddiweddar i Bentref Llanilltern. Daw Alun Wyn o Frynaman a Jill o'r Garnant, a dywedir i'r ddau gwrdd yn Ysgol Dyffryn Aman.

Mae Alun wedi bod yn athro, prifathro, prif weithredwr Menter Aman-Tawe, gohebydd/cyflwynydd i gwmni Tinopolis, dyfarnwr rygbi a sylwebydd rygbi ar radio a theledu. Mae hefyd yn awdur toreithiog. Dyn prysur a thalentog!

Mae Jill yn gyn-radiograffydd yn Ysbyty Treforys ac yn ysgrifennydd cyhoeddiadau Soar, Maes yr Haf ers blynyddoedd lawer.

Mae'r ddau yn falch o fod wedi symud yn nes at eu merch Lowri a'u mab Trystan a'u teuluoedd. Maen nhw bellach ar gael yn fwy hwylus i roi help a chefnogaeth i'r wyrion Gwenno, Ifan, Math ac Owen! Croeso cynnes i'n plith eich dau! A diolch G a L.

PONTYPRIDD

Dathliadau
Llongyfarchiadau i Barry Todd ar achlysur penblwydd arbennig iawn. Gobeithio cawsoch ddiwrnod i'r brenin yn dathlu gyda'r teulu.

Penblwydd hapus hefyd i Beca Caffery a Siwan Francis yn 40 oed. Y ddwy yn dathlu yn ddiweddar. Mwynhewch y dathliadau i gyd.

Llongyfarchiadau i Siwan a Matt Hayward hefyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Cafwyd diwrnod hyfryd yn dathlu gyda theulu a ffrindiau. Pob dymuniad da i chi a'r teulu oll.

Llongyfarchiadau i Olwen Elin Edwards, wyres fach Mike a Siàn Ebbsworth, Graigwen, ar achlysur ei bedydd yn Ffynnon Taf. Bu mamgu yn brysur iawn wrthi yn creu'r gacen bedydd hyfryd. Achlysur hapus iawn.

Llongyfarchiadau i Bethan Ford, rhedwraig o fri. Cafodd ei dewis i gynrychioli Clwb Rhedeg Pontypridd yn y ras Castell i Gastell. Tipyn o gamp!

Llongyfarchiadau i ddwy redwraig arall sef Lowri Mared ac Eurgain Haf o'r Comin. Llwyddodd y ddwy i redeg hanner marathon Abertawe a chodi arian

tuag at Gylch Meithrin Cilfynydd a Phont Sion Norton. Gwych ferched! Cadwch fynd! Codwyd dros £500 tuag at yr achos.

Merched y wawr
Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar Orffennaf 14 eg am 1.30 yp yn Sain Ffagan. Cawn gyfle i grwydro o amgylch y safle a mwynhau picnic yn yr awyr iach. Dewch i fwynhau ac i drafod syniadau am raglen y flwyddyn sydd i ddod.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad gyda theuluoedd a ffrindiau sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Cofiwn yn arbennig am Cerys Webber, aelod ffyddlon o gangen Merched y Wawr Pontypridd. Talwyd teyrnged yn y gwasanaeth angladdol iddi, am ei chyfraniad, gan Jayne Rees, llywydd y gangen. Cofion at Steven, gŵr Cerys, a'r teulu ym Mhenrhyncoch.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Siân Ebbsworth a'r teulu. Bu farw mam Siàn yn ddiweddar yn ysbyty Glangwili. Cofion atoch yn eich colled.

Cofiwn hefyd am Arthur Saunders, cyn athro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen am flynyddoedd lawer. Daeth nifer o gyn athrawon a chyn ddisgyblion i dalu teyrnged iddo. Pob cydymdeimlad i Rhian Angharad a'r teulu.

Colli Gwenllian
Yn dilyn cystudd hir yng Nghartref Nyrsio Greenhill Manor, Merthyr Tudful bu farw Gwenllian Jenkins ym mis Mehefin. Ganwyd a magwyd Gwenllian yn Llundain a daeth i'r ardal i ddysgu ar ôl bod yng Ngholeg Hyfforddi Cyncoed. Bu'n athrawes yn Ysgol Pont Sion Norton, a Bargoed cyn ei phenodi'n Brif Athrawes Ysgol y Castell, Caerffili. Ymunodd yng ngweithgareddau'r cylch. Roedd yn aelod brwd o Gôr Godre'r Garth a Merched y Garth. Cefnogodd Merched y Wawr Pontypridd a'r Cylch Darllen. Roedd Gwenllian yn byw ym Mhontypridd am flynyddoedd cyn symud i Lanfabon. Bydd colled mawr ar ei hôl a danfonwn ein cydymdeimladau i'w theulu a chyfeillion a fu'n gofalu amdani.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Brysia Wella
Dymunwn wellhad buan i Catrin Rees, Penywaun sydd wedi derbyn triniaeth yn yr Ysbyty yn Llantrisant yn ddiweddar.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Lyn Harcombe, Andrew, James a Sarian a'r teulu i gyd ar golli Ann yn ystod y mis. Bydd amryw o'r pentrefwyr yn cofio teulu Harcombe yn byw ym Mhenywaun flynyddoedd yn ôl. Roeddynt yn gymdogion cymwynasgar i Carey a minnau.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd
Treuliais wythnos wrth fy modd yn gwylio Eisteddfod yr Urdd o Ddinbych ddechrau'r mis. Bonws oedd cael gweld wynebau cyfarwydd o'r pentref ar y sgrin ac yn dod i'r brig yn aml. Llongyfarchiadau gwresog i Elin Griffiths, Parc Nant Celyn ar ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Chwythbrennau o dan 19 oed. Roedd yn braf gweld wynebau siriol pedair o ferched Penywaun, Awen, Esyllt, Mali a Mari yn perfformio gydag Adran Bro Taf ac yn dawnsio gydag Ysgol Garth Olwg. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Cinio Mawr Efail Isaf
Daeth nifer dda iawn o bentrefwyr ynghyd i'r Cinio Mawr ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 11eg. Pob blwyddyn daw'r pentrefwyr ynghyd i ddathlu cyfeillgarwch a chael cyfle i sgwrsio gyda chymdogion a ffrindiau yn Neuadd y pentref.

Côr yr Einion
Bydd aelodau Côr yr Einion yn cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ddydd Iau, Gorffennaf 7fed am 3 o'r gloch y prynhawn. Ceir cyfle i fwynhau te prynhawn, cyfle i gymdeithasu a chyfle i werthfawrogi a diolch i Siân Griffiths yr arweinydd, Siân Elin, y cyfeilydd a Llinos Swain am ei chymorth achlysurol parod i'r Côr.

Parti'r Efail
Dymunwn yn dda i Barti'r Efail a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ym mis Awst.

Rhoi pentref Efail Isaf ar y map
Pob nos Fawrth ar raglen hwyr Geraint Lloyd ar Radio Cymru gosodir tri chliw i'r gwrandawyr a rhaid iddynt ddyfalu i ba ardal mae Geraint am eu harwain. Nos Fawrth, Mehefin 21ain un o'r cliwiau oedd "Cafodd Tom Bryant, y telynor, ei eni yn y dafarn leol", ac wrth gwrs cafodd Geraint Lloyd ei arwain i'r Efail Isaf. Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol wedyn gan John Llewelyn Thomas a fu'n canu clodydd y pentref. Soniodd am Gymreictod y pentref, am weithgareddau yn Neuadd y Pentref, yr ardd gymunedol a chapel y Tabernacl a'r holl waith elusennol gan yr aelodau a'r gymuned leol. Canmolodd y dafarn leol a gefnogodd y pentrefwyr yn ystod y pandemig drwy drefnu cyflenwad o fwyd i'r pentrefwyr. Soniodd am frwdfrydedd y teulu sy'n rhedeg y siop a ail-agorwyd yn ystod y cyfnod clo. Diolch am raglen ddiddorol.

Y TABERNACL
"Diwrnod Mas" yr Ysgol Sul
Aeth nifer dda o blant yr Ysgol Sul a'u rhieni ar "ddiwrnod mas" i Fferm Amelia Trust ym Mro Morgannwg ar fore Sul, Mehefin 12fed. Dyma'r trip cyntaf i'w drefnu ers tro, ac mi wnaeth y plant fwynhau'r amrywiaeth o atyniadau ar y fferm. Yn ffodus roedd yn fore braf ac mi wnaeth y plant a'u rhieni fwynhau picnic yn yr haul. Diolch i'r oedolion a wnaeth drefnu'r ymweliad

Merched y Tabernacl
Yng nghyfarfod mis Mai o ferched y Tabernacl penderfynwyd trosglwyddo £170 i Fanc bwyd Salem, Tonteg. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd gan fod cymaint o alw'r dyddiau yma am wasanaeth y Banc bwyd.
Cyfarfod nesaf y merched fydd Bore Gwener Gorffennaf 8fed am 10.30 y bore yn y Ganolfan.

Gardd Gymunedol y Tabernacl
Mae'r Ardd Gymunedol yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod y mis bu Cangen Merched y Wawr Tonysguboriau yn ymweld â'r ardd. Fe dywysodd John Llewelyn Thomas y merched o amgylch yr ardd ac mi wnaeth pawb fwynhau'r profiad.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol
Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn hynod brysur yn ddiweddar. Codwyd dros £4000 at Apêl Wcráin, ac ychydig dros £2000 i ymgyrch Cymorth Cristnogol i gynorthwyo pobl Zimbabwe sydd yn dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Diolch i aelodau'r Tabernacl am eu cefnogaeth ariannol. Mae'r Gweithgor yn dal i gefnogi a threfnu cefnogaeth gyson i'r banciau Bwyd lleol. Mae'r grŵp o dan arweiniad John Llewelyn Thomas yn cyflawni gwyrthiau drwy helpu pobl ifanc sydd ar fin symud o loches i'w cartrefi cyntaf. Gyda help aelodau'r Tabernacl a'r gymuned leol llwyddir i gasglu celfi, offer cegin, dillad gwely, carpedi a llestri ar gyfer y bobol ifanc yma a hynny gan amlaf ar fyr rybudd. Rhaid diolch o galon i'r tîm o wirfoddolwyr am eu gwaith a'u gofal.

Trefn yr oedfaon ar gyfer Mis Gorffennaf a Mis Awst
Gorffennaf 3ydd: Oedfa Gymun yng ngofal Rhiannon Humphreys, Audrey Lewis ac Eifiona Hewitt
Gorffennaf 10fed: Y Parchedig Aled Edwards
Gorffennaf 17eg: Oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul a'r Twmiaid
Gorffennaf 24ain: Ymuno â Chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth
Gorffennaf 31in: Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu.
Awst 7fed: Ymuno â Chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth
Awst 14eg: Edwyn Evans
Awst 21ain Ymuno â Chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth
Awst 28ain: I'w drefnu

Yr Ysgol Sul yn Fferm Amelia

Ymweld â'r ardd gymunedol

Ysgol Tonyrefail

Datgelu Canlyniadau Cyfrifiad 2021
Fel gwobr am ennill cystadleuaeth 'Gadewch ni Gyfrif 2021' cafodd disgyblion Blwyddyn 6 yr anrhydedd o ddatgelu canlyniadau poblogaeth Cymru 2021. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddisgyblion yr Adran Iau, ble yr esboniodd Mr Ed Dunn bwysigrwydd y cyfrifiad. Cafwyd cyfle i holi cwestiynau hefyd. Roedd yn fore prysur iawn yn yr ysgol gyda ITV Cymru, Ffeil, newyddion S4C a BBC Cymru yn dod i ffilmio'r achlysur.

Bl6 yn cael eu cyfweld.

Prifysgol Caerdydd
Mae plant Blwyddyn 4 a 5 wedi cael y cyfle i gyd-weithio gydag ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd i weld sut mae plant yn dysgu orau yn y dosbarth. Roedd yn brofiad diddorol iawn i wrando ar y plant yn mynegi eu barn ac yn rhan bwysig o edrych ar ôl lles ein disgyblion.

Blwyddyn 4 a 5 yn cydweithio gyda Phrifysgol Caerdydd

Sioeau Haf
Braf oedd gallu croesawu rhieni yn ôl i'r ysgol i wylio eu plant yn perfformio yn eu sioeau haf eleni. Cafwyd perfformiadau egniol iawn gan blant y dosbarth Meithrin a Derbyn yn eu sioe 'Dewch i Symud'. Roedd anifeiliaid o bob lliw a llun ar y llwyfan yn ystod sioe Blwyddyn 1 a 2 sef 'Anifeiliaid Anhygoel'. Braf oedd gweld y plant yn mwynhau pob eiliad ar y llwyfan

'Dewch i Symud' sioe'r Meithrin a Derbyn

ac fe gafwyd perfformiadau ardderchog! Diolch i bawb am eu gwaith caled.

Pêl-rwyd
Cafodd merched y tîm pêl-rwyd amser ardderchog yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r tîm gystadlu ers tro byd ac mi roedd eu perfformiadau i'w canmol yn fawr. Da iawn chi ferched!

Trosglwyddo
Bu cyfle arall i ddisgyblion Blwyddyn 6 i ymweld ag Ysgol Llanhari ar gyfer mwy o weithgareddau Trosglwyddo – y tro yma y dyniaethau a mathemateg oedd y pynciau dan sylw. Braf hefyd oedd croesawu cyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol i drafod gyda'r plant eu profiadau hwy yn dechrau yn Ysgol Llanhari. Roedd y plant wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gael holi cwestiynau i Flwyddyn 7 a Mrs George a Mr Rivers.

Diwrnod Trosglwyddo i Fl6 yn Ysgol Llanhari.

Tonteg

Genedigaeth
Croeso i'r byd Hopcyn Cybi Llewelyn, mab bach i Dylan Llewelyn a Gwenno Llwyd Jones, Dwyran, Ynys Môn. Ganwyd Hopcyn ar 30ain Mai, yn pwyso 7lb 12oz yn Ysbyty Gwynedd. Mae Taid a Nain sef Rhys a Rhiannon Tonteg wedi gwirioni gyda'i hwyr bach cyntaf.

Tripiau Haf
Cafodd Blynyddoedd 4, 5 a 6 amser wrth eu boddau ar eu trip i Heatherton. Roedd pawb wedi cael blas ar y gwahanol weithgareddau ac mi roeddynt yn lwcus iawn o'r tywydd! Fe aeth Blwyddyn 3 ar drip i'r Odeon ym Mhenybont i weld y ffilm 'Lightyear' ac yna ymlaen am ginio. Cafodd y trip a'r ffilm adolygiadau ffafriol iawn.

Mwynhau yn Heatherton

Plant Hapus Blwyddyn 3!

Celf Byd Natur
Diolch yn fawr i Mrs Bethan Fletcher sydd yn rhiant ac yn un o'n Llywodraethwyr am ddod i gynnal gweithgareddau awyr agored gyda Chlwb Blwyddyn 3 a 4. Roedd y plant wedi mwynhau creu celf byd natur yn yr awyr agored.

'Anifeiliaid Anhygoel' Blwyddyn 1 a 2.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Gorffennaf 2022:
3 Gorffennaf – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 Gorffennaf – Sul Caniadaeth y Cysegr (am 2:00 p.m.)
17 Gorffennaf - Oedfa dan ofal Siân Meinir
24 Gorffennaf – Oedfa dan ofal Marc John Williams (addoli ar y cyd â Tabernacl, Efail Isaf tan yr 28ain o Awst)
31 Gorffennaf – Cyd-addoli yn y Tabernacl Efail Isaf
Mis Awst 2022:
7 Awst - Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
14 Awst - Cyd-addoli yn y Tabernacl Efail Isaf
21 Awst – Oedfa dan ofal Dr Ian Hughes
28 Awst - Cyd-addoli yn y Tabernacl Efail Isaf

---oooOOOooo---

Ganed Henry John Deutschendorf Jr. yn nhalaith Mecsico Newydd yn yr Unol Daleithiau ar ddiwrnod olaf 1943, yn fab i Erma a'i gŵr Henry John Sr., swyddog yn awyrlu'r Unol Daleithiau.

Bu farw yn 53 oed, yn dilyn damwain awyren, ym Mae Monterey, California ar y 12fed o Hydref 1997.

Roedd yn ganwr (a recordiodd dros 300 o ganeuon, gan gyfansoddi tua 200 ohonynt ei hun), yn actor, yn weithredwr ac yn ddyngarwr.

Amcangyfrifir ei fod wedi gwerthu oddeutu 33 miliwn o recordiau yn ystod ei oes.

Bu'n byw yn Aspen, Colorado, am ran helaeth o'i fywyd, ac fe'i crëwyd yn fardd llawryfog (Poet laureate) y dalaith honno yn 1974. Mabwysiadwyd ei gân, "*Rocky Mountain High*", yn un o ddwy gân swyddogol y dalaith yn 2007. [Gwnaeth talaith Virginia yr un modd gyda'r gan "*Take Me Home, Country Road*" yn 2014.]

Dwi'n siŵr eich bod bellach yn synhwyro fod Henry John Deutschendorf Jr. yn fwy cyfarwydd i ni fel John Denver - y gŵr gyda mop o wallt melyn hir, a sbectol rimyn main (sbectol mam-gu!) ar ei drwyn a fyddai'n gwisgo crysau gyda brodwaith yn dylunio'r "*American West*" amdano.

Cafodd gitâr acwstig yn anrheg gan ei nain pan oedd yn 11 mlwydd oed, ac wedi iddo gyrraedd dyddiau coleg a dechrau perfformio ar lwyfannau lleol, awgrymwyd y dylai newid ei enw i rywbeth a fyddai'n ffitio yn well ar boster!

'Roedd yn ymgyrchydd brwd dros hawliau'r rhai mewn angen a chafodd ei ddewis gan Jimmy Carter fel aelod o "Gomisiwn yr Arlywydd ar Newyn Byd-eang", gan hefyd gyfansoddi arwyddgan "*I want to live*" iddynt.

Bu'n hael ei gefnogaeth i elusennau yn Aspen, megis Ysgol y Byddar ac Ysbyty'r Dyffryn.

Tra roedd hedfan ei awyren yn un o'i hoff bleserau, roedd ganddo yn ogystal ddiddordeb mynwesol yng ngweithgareddau NASA a theithiau i'r gofod, ac roedd yn un o'r rhai a gyrhaeddodd rownd olaf y dewis ar gyfer hedfan ar daith gyntaf i sifiliaid ar y Wennol Ofod.

Ac fel y nodwyd eisoes, damwain tra'n hedfan a fu achos ei farwolaeth yn 1997, a bu baneri'r dalaith yn chwifio ar hanner mast yn dilyn hyn. Gwasgarwyd ei lwch ym Mynyddoedd y Rockies.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar lan afon y Roaring Fork, ger Parc y Rio Grande, yn Aspen, fe grëwyd gardd "Noddfa John Denver", ac yma ymysg y cerrig mawr a'r cofebau, yng "Ngardd y Gân", y gwelir geiriau nifer o'i ganeuon wedi eu naddu yn gelfydd i'r graig. Mae nentydd a rhaeadrau bychan yn rhedeg trwy'r safle, ac adar a mamaliaid cynhenid yn crwydro'r llwybrau, a blodau a phlanhigion yn gymysg a choed a llwyni yn llenwi'r lle.

Ac ynghanol golygfeydd godidog talaith enfawr ac uchel Colorado, taith y bu i mi ac Ann ei dilyn yn ystod mis Mehefin eleni (ac a drefnwyd yn 2019!), ymysg y mynyddoedd uchel, ymysg yr eangderau anial, ymysg y tirlun amrywiol ei liw a'i natur, dyma yn sicr oedd un o'r uchafbwyntiau.

Crëwyd gardd deilwng i ddal ysbryd ac enaid byd natur. Mae'n lloches, mae'n lle hynod o heddychlon, tawel a llonydd, mae'n lle da i fyfyrio!

A fedr rhywun ddim llai na chael ei swyno gan ôl y cŷn ar y graig, a'r geiriau yn mynnu sylw oherwydd eu bod mor amrwd eu golwg ond mor gelfydd eu sain, yn gymysg a sŵn y miwsig yn ffrydio'n rhaeadrau o'r nentydd i'r afon gerllaw.

Ydi, mae "*Annie's Song*" yno, ynghyd a llawer o ffefrynnau eraill o waith y trwbadŵr, ond fe gydiodd "*Windsong*" ynof yn ddi-os, hwyrach oherwydd gweld cyfeiriad diweddar yn rhywle at bryddest J Kitchener Davies "*Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*":-

"...Na 'ddaeth dim awelig i gwafrio dail dy ganghennau di,
chwaethach corwynt i gracio dy foncyff
Neu i'th godi o'th bridd wrth dy wraidd.
'Ddigwyddodd dim byd iti erioed
Mwy nag iti glywed sŵn y gwynt sy'n chwythu
Y tu hwnt i ddiogelwch y berth sydd amdanat."

A dyma fy aralleiriad i o'r gân honno gan John Denver (bydd gwrando ar y gwreiddiol o gymorth i'w hadnabod!):-

"Sŵn y Gwynt"
"*Y gwynt yw sibrwd ein mam ddaear*
Y gwynt yw llaw ein tad yn yr awyr
Y gwynt sy'n gwarchod ein brwydrau a'n pleserau
Y gwynt yw'r dduwies a ddysgodd i hedfan.

Y gwynt yw cariwr y newyddion drwg a da
Ef yw gwehydd y tywyllwch a chludwr y wawr,
Y gwynt sy'n rhoi'r glaw, cyn llunio'r enfys,
Y gwynt ydi'r canwr a ganodd y gân gyntaf erioed.

Mae'r gwynt yn gymysgwch o lid a chynhesrwydd
Daw a phersawr y gwair-newydd-ei-dorri i'n ffroenau,
Mae'r gwynt ar ras, megis stalwyn ar garlam
Daw'r gwynt a blas cariad ar ddiwrnod o haf.

Fe wybu y gwynt ganeuon ein dinasoedd a'n dyffrynnoedd
Taranau ein mynyddoedd a rhuoedd ein moroedd,
Y gwynt sy'n rhoi a chipio ein boreau
Mae'r gwynt yn symbol o bopeth sy'n rhydd.

Croesawn y gwynt a'i ddoethineb
Ac fe ymatebwn pan ddaw eto ar ei hynt,
Yn ein calon a'n henaid, gadewch i'r awel eich amgylchynu,
Codwch eich llais a chanwch gyda'r gwynt."

A'r gair olaf o Golorado am y tro, a hynny o lyfr o ddiarhebion y brodorion cynhenid a brynais cyn ymadael:-
"Ni fyddai gan yr enaid enfys heb fod deigryn yn gyntaf yn y llygaid!
(un o ddywediadau tylwyth y Minquass).

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Guto Rhys, awdur *Amrywiaith 2*, 'casgliad o eiriau tafodieithol, geiriau newydd a thrafodaeth fywiog am yr iaith'.

Beth yw eich gwaith?
Ieithydd, hanesydd, Celtegydd llawn amser, yn cyhoeddi, dysgu ac yn arwain teithiau diwylliannol.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Athro Cymraeg, athro Llydaweg mewn prifysgol, tiwtor Cymraeg, athro Saesneg ym Madrid. Rheolwr cwmni.

O ble rydych chi'n dod?
O Lanfairpwllgwyngyll yn wreiddiol ond wedi crwydro cryn dipyn.

Ble rydych chi'n byw nawr?
Ar gyrion gogleddol Brwsel yn Fflandrys.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Do wir, yn enwedig Lefel A. Athrawon amyneddgar gyda llanc bywiog!

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?
Fy nhad (oedd yn hanesydd), fy nhaid oedd yn Gymro diwylliedig. Athrawon Cymraeg a Hanes yn Ysgol David Hughes. Cymdogion a chyfeillion cadarn eu Cymraeg ym Mhen-y-berth.

Pam sgrifennu'r gyfrol?
I gadw i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu. Wedi bod ers sawl blwyddyn yn holi cwestiynau am yr iaith Gymraeg ar y grŵp Facebook 'Iaith' a sylweddoli bod angen cloriannu yr holl gyfoeth ieithyddol a gafwyd yn yr holl drafodaethau. Mae cymaint sy'n newydd ac erioed wedi'i gofnodi.

Y gobaith hefyd yw cyfoethogi iaith y darllenwyr trwy eu hatgoffa am ymadroddion, geiriau a nodweddion gramadegol sydd efallai'n dechrau pylu ar dafod leferydd. Hefyd helpu dysgwyr. Pryder am golli ffenest ar brofiadau pobol. Diogelu treftadaeth.

Faint o ymchwil oedd angen? Beth oedd y broses?
Cryn dipyn o waith gosod trefn ar y trafodaethau gan mai pytiau o bob cwr o'r wlad a geir fel arfer. Chwilio am batrymau, bwrw golwg yn y llyfrau am dafodieithoedd i gyfoethogi'r pytiau.

Wedyn cryn dipyn o waith yn chwilio am darddiad geiriau mewn geiriaduron hanesyddol ac ati er mwyn sicrhau bod agwedd academaidd i'r llyfr, a hefyd er mwyn pwysleisio bod y Gymraeg, fel pob iaith arall, yn rhan o gyfoeth ieithyddol ehangach. Ceisio egluro pethau na chafodd eu hegluro.

Beth oedd y mwynhad mwya a'r heriau mwya?
Y mwynhad mwyaf yw dysgu am gyfoeth iaith a chyfoethogi fy iaith a'm gwybodaeth fy hun. Hefyd cyfathrebu ar-lein ac ar lafar gyda channoedd o bobl sydd â hanesion diddorol a phwysig.

Her arall yw'r angen i lunio naratif sydd ddim yn rhy dechnegol a sych. Mae angen gofal hefyd wrth osod trefn, gan geisio peidio â chamarwain trwy lenwi bylchau fy hun.

Faint mwy o ymchwil sy angen yn y maes hwn?
Cwestiwn da. Mae peth wmbredd o waith i'w wneud. Yn ffodus, gwnaethpwyd llawer o waith eisoes gyda llyfrau fel *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (1913), *A Glossary of the Demetian Dialect* (1910) a *The Linguistic Geography of Wales* (1973). Mae llu o erthyglau a llyfrau am ardaloedd penodol yn ogystal.

Ond mae llawer iawn o fylchau yma ac acw, ac mae llawer o'r astudiaethau mewn traethodau MA na chafodd erioed eu cyhoeddi. Mae llawer wedi newid ers y cyhoeddiadau hyn. Hefyd, ni wnaeth nifer o astudiaethau nodi'r union ynganiad, ac mae llawer o waith i'w wneud ar faterion gramadegol.

Sut dechreuodd eich diddordeb mewn iaith?
Anodd gwybod. Bod yn ymwybodol iawn o ddwyieithrwydd rydw i'n amau, a chwilfrydedd direol hefyd. Rhieni a chyfeillion o ardaloedd gwahanol yn cyfrannu i'm hymwybyddiaeth o amrywio ieithyddol.

Pa mor eang yw eich diddordebau ieithyddol?
Eang iawn, dibendraw. Wedi dysgu Sbaeneg a Ffrangeg a Llydaweg yn rhugl. Bûm yn byw yn Sbaen am flwyddyn a hanner ac yn Llydaw am dair. Hefyd wedi dysgu Cernyweg, ac wedi llunio'r Cwrs Wlpan ar gyfer Gaeleg yr Alban. Wedi cael cyfle i astudio Lladin, Hen Wyddeleg a Hen Saesneg yn ogystal.

Diddordeb mawr mewn newid iaith – mewn amser, cymdeithas a chyd-destun. Bellach yn ceisio dysgu Iseldireg a gwella fy Eidaleg. Mae fy mechgyn bach (efeilliaid) mewn ysgol Iseldireg, yn medru Ffrangeg a Chymraeg.

Pa mor bwysig yw tafodiaith? Ddylai tafodiaith gael ei dysgu mewn ysgolion?
I mi mae'n bwysig, ond rydw i'n ymwybodol iawn mai peth symudol yw



pob iaith fyw. Anodd gwybod sut mae dysgu tafodiaith, yn enwedig mewn ardaloedd di-Gymraeg.

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?
Dyfal donc a dyr y garreg. Daliwch ati. Mater o ymroddiad a dyfalbarhad yw'r rhan fwyaf.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi erioed?
'Pan fydda i'n sgrifennu byddaf yn sgrifennu ar gyfer pobol ddeallus sydd ddim yn arbenigwyr'. Mae'n help mawr cael syniad clir o'r gynulleidfa yn eich pen. Byddaf yn dychmygu egluro materion cymhleth i bobol benodol wrth ysgrifennu. Byddaf yn ymgomio â nhw wrth ysgrifennu. Dwi ddim yn siwr pa mor lwyddiannus yw hyn.

Beth oedd yr ymateb i'r gyfrol gynta? Oes cyfrol arall ar y gweill?
Rhyfeddol o dda. Doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl, a dweud y gwir. Dim ond ceisio hyrwyddo'r Gymraeg oeddwn i, a hyd yn hyn does dim beirniadaeth lem wedi cyrraedd fy nghlustiau. Mae diolch mawr i brawfddarllenwyr fel Phyl Brake wnaeth waith penigamp, yn cyfoethogi ac yn cywiro.

Mae *Amrywiaith 2* ar fin cael ei gyhoeddi, ac mae *Amrywiaith 3* bron â gorffen. Eisoes wedi dechrau ar *Amrywiaith 4* ac mae digon o ddeunydd i gyhoeddi cyfrol bob chwe mis, yn hawdd. Mae'r trafodaethau mor gyfoethog.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Pob math o bethau, os nad oes cig. Gyda glasiad o win da neu gwrw Trappist tywyll a chryf o un o fragdai mynachaidd Gwlad Belg.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Chwarae gyda fy meibion. Ar wahân i hynny, dringo a cherdded mynyddoedd. Fel arall, darllen am anthropoleg neu hanes. Caffael ieithoedd, wrth gwrs. Treulio amser gyda chyfeillion dros lasiad o Leffe. Teithio ac ymweld â safleoedd hanesyddol.

Dolen Gwales https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845278526&tsid=6#top
***Amrywiaith 2*, Gwasg Carreg Gwalch, £7.50**

Ysgol Dolau

Llwyddiant y Tîm Criced
Llongyfarchiadau i dîm criced yr ysgol am eu perfformiad a'u presenoldeb yn Nhwrnamaint Criced Taf Elái ym Mharc Ynysangharad. Cynrychiolodd y tîm yr ysgol yn rhagorol a dangosodd y tîm sgiliau gwych yn y gemau. Roedd ennill pob gêm yn fonws bach hyfryd ar ôl diwrnod gwych o chwaraeon.

Eisteddfod yr Urdd

Yn ystod hanner tymor mis Mai, teithiodd grŵp o'n disgyblion, rhieni a staff i fyny i Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru i fod yn rhan o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bu disgyblion Dolau yn cystadlu yn y cystadlaethau dawns yn yr Eisteddfod. Cystadlodd grŵp dawns greadigol, grŵp dawns stryd, ac Ava, a berfformiodd unawd. Gweithiodd y merched yn eithriadol o galed, gan ymarfer yn ystod eu hamseroedd cinio ac ar ôl ysgol, i gael eu dawnsfeydd yn barod ar gyfer y diwrnod mawr. Roeddent yn wych a pherfformion nhw'n wych gyda chymaint o hyder. Rydym yn falch iawn ohonynt i gyd.



Twrnamaint Pêl-rwyd yr Urdd
Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-rwyd a gystadlodd yn nhwrnamaint pêl-rwyd yr Urdd ddydd Mawrth 21ain o Fehefin. Roeddent yn erbyn 16 tîm arall ac yn y pen draw fe'u gosodwyd yn 2il ar y diwrnod. Roedd eu hagwedd anhygoel a'u perfformiad hyd yn oed gwell yn amlwg i bawb. Rydym yn falch iawn ohonynt a'u gwaith caled.

Rygbi Tag Merched
Am ddiwrnod! Aethom â dau dîm i Bencampwriaeth Rygbi Tag Merched yr Urdd ym Morgannwg Ganol yng Nghaeau Trecelyn. Roedd pob chwaraewr unigol yn gwbl wych ac yn dangos brwdfrydedd a gwaith tîm, ac yn chwarae gyda gwên fawr ar eu hwynebau. Aeth un o'n timau yn ddiguro drwy'r dydd ac ennill cystadleuaeth y Cwpan. Gwellodd ein tîm arall yn ystod pob gêm a aeth heibio, ac yn y pen draw enillodd y gystadleuaeth Plât. Da iawn ferched!

Pêl-droed Merched
Chwaraeodd tîm o ferched talentog iawn yn Nhwrnamaint Pêl-droed Merched yr Urdd ym Morgannwg Ganol. Dangosodd y merched ymrwymiad a gwaith tîm gwych, gan ennill eu holl gemau grŵp cyn colli o drwch blewyn yn y rownd gynderfynol.

Gymnasteg Fusion
Mae'r dosbarthiadau Reception a Derbyn wedi bod yn ymgysylltu â chlybiau chwaraeon lleol. Rydym wedi bod i Gymnasteg Fusion lle cawsom sesiwn flasu a hefyd dysgom am rai talentau lleol. Cawsom hefyd ymweliad gan Mr. Byers, un o aelodau tîm buddugol y cwpan. Dywedodd wrthym am y tîm a faint ohonynt oedd yn arfer dod i Dolau. Dysgodd ef ni hefyd am fathodyn rygbi Llanharan a sut mae'n symbol o hanes y pentref. Fe wnaethon ni orffen gyda gêm o rygbi tag.

Pythefnos Profion Cenedlaethol
Yn ystod ein pythefnos profion cenedlaethol yn yr ysgol, mae'r disgyblion wedi bod yn ymgymryd â thasgau creadigol ac annibynnol iawn, gan gymhwyso'r sgiliau rydyn ni wedi bod yn eu datblygu yn barod ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Dyma rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 yn ymchwilio i'r Blitz yn Abertawe, creu darn o waith celf silwét, ac adeiladu llochesi Anderson allan o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu.

School of Rock
Fel rhan o ddathliadau diwedd y flwyddyn, bu blwyddyn 6 yn ddigon ffodus i ymweld â Chanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd i weld un o sioeau'r meistr sioeau cerdd, Andrew Lloyd Webber. Mwynheuodd y plant School of Rock yn fawr iawn ac roedd y profiad o gael mynd i'r theatr unwaith eto, wedi cyfnod anodd COVID-19, yn bleser o'r mwyaf. Roedd ymddygiad y disgyblion yn ardderchog ac roedd yr holl athrawon yn falch iawn ohonynt.

Parhad tudalen 9 >

Ysgol Dolau (Parhad)

Gweithdy Rhyfel Byd Cymru
Hoffai'r ysgol a'r plant ddiolch yn fawr iawn i Gweithdy Rhyfel Byd Cymru am ddod i'r ysgol i'n dysgu am ryfeloedd y byd ac am wneud y gweithdy yn fywiog. Roedd yn wych i ni allu gweld a theimlo arteffactau go iawn a deall pa mor anodd oedd pethau i bobl yn ystod y rhyfeloedd byd.

Llwyddiannau Unigol
Llongyfarchiadau enfawr i Ava, sydd i'w gweld yma yn dal dwy fedal. Y fedal ar y chwith yw'r un am ymladd i Undeb Cic-focsio Cymru - enillodd ei chategori. Ar y dde, gallwch ei gweld yn dal medal ar gyfer ei rhan ym mhencampwriaethau Ewrop - daeth yn drydydd (efydd) yn ei chategori. Cafodd wregys hefyd ar gyfer ei brwydr gyswllt lawn gyntaf. Mae ganddi hefyd arian (ar gyfer cyswllt ysgafn) ac efydd (pwyntiau ymladd) yn y WKKC felly mae'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r byd ym mis Hydref. Mae hi wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru ond mae hi hefyd wedi cymhwyso i gynrychioli Lloegr, felly mae'n mynd drwodd i gynrychioli Prydain yn gyffredinol hefyd.

Dathliad Jiwbilî Platinwm
Ar ddydd Gwener olaf hanner cyntaf tymor yr haf, mwynheuodd yr ysgol gyfan ddathliad Jiwbilî Platinwm i anrhydeddu Ei Mawrhydi'r Frenhines. Cafodd pob disgybl amser gwych, yn mwynhau picnic a gemau gardd. Diolch yn fawr i Senedd yr Ysgol am eu gwaith wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad, hyd yn oed creu'r Frenhines a'i chorgi ar gyfer y gêm 'pin the crown/tail on'. Hefyd, diolch yn fawr iawn i Osian, y DJ am y prynhawn - set mor wych ac mor broffesiynol.

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis : Allan James

Y CWRICWLWM A'R FILLTIR SGWÂR
Er i mi bellach hen ymadael â byd addysg, clywais si yn ddiweddar fod y cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar hanes a diwylliant y cymunedau hynny sy'n gartref i'r gwahanol ysgolion o fewn eu terfynau. Cof gennyf pan oeddwn yn ddisgybl yn y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd i mi gael fy nghyflwyno i hen hanes yr Aifft a'r gwledydd cyfagos. Os cofiaf yn iawn rhywbeth fel 'The Ancient World' oedd teitl y gwerslyfr, y clawr yn ddi-liw a'r cynnwys hyd yn oed yn fwy di-liw i grwt unarddeg oed.

Braf clywed, felly, am y newid cyfeiriad. O ystyried yr ardal hon fydd dim prinder deunydd diddorol a allai fod yn sail i wahanol gynlluniau. Gellid canfod cryn dystioaeth erbyn hyn a nifer o ffynonellau diddorol sy'n cynnig darlun o'r ardal ar hyd yr oesoedd, deunydd a allai fod yn fan cychwyn i drafodaeth ar amrywiaeth o gyfnodau a chyd-destunau. Bu Dean Powell, er enghraifft, yn hynod ddiwyd yn cofnodi agweddau ar hanes yr ardal, yn cyhoeddi cyfrol ar Dr. William Price ac yn defnyddio'r neuadd ym mhentref Llantrisant i hybu diddordeb mewn nifer o bynciau hanesyddol a diwylliannol. Rhaid cyfyngu'r sylwadau hyn i ambell bwynt a allai fod o ddiddordeb ac a allai arwain at ddarllen ac ymchwil ehangach. Ar wahân i hanes Llantrisant ei hun, gellir troi at hanes Bro Morgannwg sy'n cynnig golwg arall ar hanes amaethyddol y dalaith. Mae dyddiadur William Thomas (1762-1795) sydd wedi'i gyhoeddi'n gyfrol hardd, yn ffynhonnell gyfoethog a dadlennol wrth greu darlun o'r oes a fu. Mae'n cofnodi rhaglen o weithgareddau tymhorol gan nodi fod amserlen o wyliau penodol yn digwydd fesul wythnos drwy gydol yr haf yng ngwahanol bentrefi'r Fro. Yn y cofnod sy'n ymdrin â helyntion gŵyl Sain Ffagan cyfeirir at yr arfer o gyfarth teirw neu 'bull baiting', yn ogystal ag at ymladd ceiliogod: 'They baited a Bull by Jenkin John's house, which broke the ring and went away, but an old Quiet Bull (owner Richard and Butcher of Eley) was soon taken and Baited by the River again, without damage.' (t. 117)

Ar sail y dystiolaeth a geir yn nyddiadur William Thomas, ymddengys nad oedd cyfarth teirw mor boblogaidd ag ymladd ceiliogod er bod Cadrawd (T.C. Evans yr hanesydd o Langynwyd) yn awgrymu i'r arfer barhau ym mhentref Llantrisant, ar waethaf pob gwrthwynebiad, tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bydd pawb yn cyfeirio at ganol y pentref hwnnw fel y 'bullring' o hyd ac mae'n ymddangos fod y term yn ddigon cyfarwydd ar lafar gwlad i Cadrawd allu cyfeirio at ddefnydd trosiadol o'r ymadrodd :
'bwlring/bullring : cyfarthfa teirw – bull baiting. 'w'th y bwlring o hyd w i. does dim gorffws i gial.' (I am continually at the bullring, there is no rest.)

Yn dilyn, ceir sylwadau gan Cadrawd ar natur yr arfer, ac yn benodol ar 'Bullring' Llantrisant:
'There was a public bullring at Llantrisant, an institution which may be seen a hundred years ago set up in market towns, the one at Llantrisant still to be seen surrounded by houses over twelve in number, which when the last Bull-baiting took place in 1820, there were five of these Public houses.' Ceir nifer o fanylion diddorol am yr arfer ei hun cyn nodi i 'bull-baiting' fel y cyfryw ddiflannu o batrwm traddodiadau pob ardal erbyn 1826: 'Bull baiting was abolished by statute in 1826, the stone and ring at Llantrisant were removed from the old site, and taken to the Common where it still remains.'

Y gobaith yw bod yr amrywiaeth o bynciau lleol yn mynd i ddenu diddordeb disgyblion ac athrawon fel ei gilydd ac yn ddull o arwain yn y pen draw at astudiaeth o fudiadau ac egwyddorion mwy cyffredinol eu pwyslais.

Menter Caerdydd

Gweithgareddau gwyliau i'r rhai bach a'r rhai mawr!

Gyda'r gwyliau yn prysur agosáu, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn edrych ymlaen at 'haf o hwyl' yng nghwmni plant a phobl ifanc yr ardal.

Os ydych chi'n gweithio dros yr haf, beth am ddefnyddio ein cynllun 'Gofal' yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd, sy'n rhedeg o ddiwedd Gorffennaf am 5 wythnos? Neu gallwch fanteisio ar ein cynllun chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm! Cynhelir sesiynau ar draws y brifddinas yn ysgolion Pwll Coch, Coed y Gof, Mynydd Bychan a Nant Caerau yn ogystal â Chanolfan Hamdden y Dwyrain, Parc y Marl a Chanolfan Gôl. Draw yn y Fro bydd sesiynau Bwrlwm! yn cael eu cynnal ym Mhenarth, Llanilltud Fawr a'r Barri am dair wythnos cynta'r gwyliau. Mae'r gweithgareddau'n agored i blant sydd newydd orffen y dosbarth derbyn hyd at y rhai sydd newydd adael Bl.6.

Yn ogystal â'n darpariaeth i aelodau ifanc y teulu, bydd llu o weithgareddau difyr i'r oedolion hefyd. Cofiwch am ein taith fws i'r Eisteddfod Genedlaethol ddydd Mawrth, 2 Awst. Mae'r seddi'n gwerthu'n gyflym felly ewch i'r wefan neu ffoniwch y swyddfa i sicrhau eich lle. Bydd ein taith i Ŵyl Fwyd y Fenni yn sicr o dynnu dŵr o'r dannedd, felly cadwch y dyddiad – dydd Sadwrn, 17 Medi.

Os ydych chi'n mwynhau'r awyr iach, dewch am dro o Barc Hailey, Ystum Taf i Radyr ar hyd Afon Taf a Chamlas Morgannwg (Iau, 14.07). Byddwn yn dychwelyd drwy Goed Radyr gan fwynhau rhai o drysorau cudd y brifddinas. Mae'r daith yn 5 milltir o hyd ac mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel. Trefnir taith gerdded arall o Fforest Fawr, Tongwynlais, fore Sul, 7 Awst. Bydd y cerdded ychydig yn fwy heriol ond bydd y golygfeydd yn werth eu gweld!

Trefnwyr Tafwyl yn dathlu ar ddiwedd gwŷl lwyddiannus

Ydych chi'n hoff o fyd natur? Beth am ddod i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru nos Fawrth, 16 Awst ar daith arbennig i chwilio am ystlumod? Mae'r daith dywys hon, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei chynnig gyda phris arbennig - £6 i oedolion a £4 i blant - ond rhaid bod dros 8 oed i gymryd rhan). Ymhlith y sesiynau poblogaidd fydd yn cymryd hoe dros yr haf mae Sgwrs y Mis; y bore coffi misol i ddysgwyr; Pilates a Sbaeneg. Dymunwn haf hapus a heulog i bawb; fe welwn ni chi gyd ym mis Medi!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: www.instagram.com/mentercaerdydd
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Llanhari

Ymddeoliad hapus!

Ar ddiwedd Tymor yr Haf bydd Mrs Rhian Phillips yn ymddeol fel Pennaeth Ysgol Llanhari ar ôl wyth mlynedd wrth y llyw fel Pennaeth. Ymunodd Mrs Phillips ag Ysgol Gyfun Llanhari fel Dirprwy Bennaeth yn 2003 ar ers mis Medi 2014 bu'n bennaeth ar ein hysgol bob oed, Ysgol Llanhari. Yn ystod y cyfnod hwn, arweiniodd yr ysgol mewn modd cadarn a diymhongar gan fynnu'r safonau uchaf gan bob aelod o Deulu Llanhari. Mae'r ysgol wedi profi cryn lwyddiant o dan ei harweinyddiaeth hi a bellach yn cynnig profiadau arloesol i'r disgyblion a'r staff. Mae cymuned glos yn Ysgol Llanhari ac mae pwyslais amlwg ar barch gydag anogaeth i ddisgyblion wneud eu gorau beth bynnag eu hoed. Penodwyd Mrs Meinir Thomas, Dirprwy Bennaeth presennol yr ysgol i olynu Mrs Phillips fel Pennaeth.

Wrth i Mrs Phillips ddechrau mwynhau pennod newydd ym mis Medi, bydd dau aelod arall o staff yr ysgol yn cychwyn mwynhau eu hymddeoliad hwy. Bu Mr Geoff Howell a Mr Colin Pari ar staff Ysgol Llanhari am flynyddoedd maith gan wneud cyfraniad clodwiw i waith a bywyd yr ysgol. Dymunwn yn dda i'r tri, ac wrth obeithio am ymddeoliad hir a hapus iddynt, diolchwn o waelod calon am eu cyfraniad arbennig ar hyd y blynyddoedd.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Mabolgampau

Er gwaetha'r rhagolygon am law, fe arhosodd yn sych ar ddiwrnod ein mabolgampau - diolch byth! Roedd pawb wrth eu boddau yn cystadlu unwaith eto a chael y rhieni yn gwylio a chefnogi. Diolch i'r athrawon am drefnu.

Mr Coleman

Diolch i Mr Coleman am ddod i gynnal gwasanaeth arbennig arall. Roedd y neges yn bwysig ac roedd pawb yn hapus i weld Doug nôl!

Pontio

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn brysur iawn gyda'u paratoadau ar gyfer yr Ysgol Gyfun. Mae pawb wedi mwynhau'r diwrnodau pontio, cyfarfodydd rhieni a'r gwersi amrywiol. Mae pawb yn gyffrous er ychydig yn nerfus erbyn hyn.

Siarter Iaith

Bu'r Cymry Cŵl yn wych wrth groesawu Ysgol Ynysboeth i Ysgol Pont-Siôn-Norton yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i ddysgu ambell i gân iddyn nhw ac arwain y gemau iard. Gobeithiwn eu bod wedi dysgu llawer yn ystod yr ymweliad ac yn pasio'r Gymraeg ymlaen i weddill yr Ysgol. Rydym yn croesi ein bysedd wrth baratoi at y wobr aur…

Daerwynno

Diwrnod anturus a hwyl a gafwyd wrth i flwyddyn 6 ymweld â chanolfan Daerwynno. Bu pawb yn mwynhau yn yr awyr agored wrth ddringo a cherdded a chael hwyl. Diolch i'r staff am drefnu'r gweithgareddau amrywiol.

Ysgol Evan James

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Llongyfarchiadau i Gwenno a Mari am berfformio mor wych wrth gystadlu yng nghystadleuaeth y ddeuawd yn Sir Ddinbych. Roedd y pafiliwn gwyn dan ei sang. Profiad arbennig ac maent yn awyddus iawn i gystadlu eto y flwyddyn nesaf.

Blas ar rygbi i Flwyddyn 6

Diolch i Jac, swyddog rygbi Ysgol Garth Olwg am ddod atom i gynnal sesiwn sgiliau gyda disgyblion blwyddyn 6. Roedd hi'n ddiwrnod chwilboeth ac fe fwynheuodd pob un yn fawr. Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i ymuno â'r sesiynau hyfforddi pan fyddant yn mynd i Garth Olwg.

Wythnos Iechyd a Lles

Cawsom wythnos i'w chofio y mis hwn pan fuom yn coginio, ymarfer a thrafod yn ystod ein hwythnos Iechyd a Lles. Diolch i Richard Shaw am ddod i goginio gyda phob dosbarth a'u dysgu am fwydydd iachus. Yr uchafbwynt wrth gwrs oedd blasu'r bwyd.

Gwasanaeth Mr Coleman

Roedd yn hyfryd croesawu Mr Coleman yn ôl atom i wneud gwasanaeth gyda'r ysgol gyfan. Mae'r plant wrth eu boddau'n gweld ffrind Mr Coleman, Doug y ci.

Y Frigâd Dân yn ôl

Daeth y frigâd dân yn ôl i'n gweld yn ddiweddar. Y tro hwn, plant blwyddyn 1 a 2 oedd yn gyffrous i weld yr injan dân. Dysgodd y plant am gadw'n ddiogel a phwy i ffonio os oes tân.

Prynhawn i'r teulu ar fynydd y Garth

Ar brynhawn Sadwrn braf ym mis Mehefin, daeth nifer o ddisgyblion a'u teuluoedd at ei gilydd i ddringo mynydd

y Garth. Dechreuom ym Mhentyrch a llwyddodd pawb i gyrraedd y copa. Cyrhaeddodd pob plentyn cyn yr athrawon! Gwych blant. Yn dilyn hynny, cawsom bicnic gyda'n gilydd. Diolch i Ysgol Garth Olwg am ddod gyda ni. Roedd yn hyfryd cael cwrdd â ffrindiau newydd.

Tripiau Di-ri

Mae'n gyfnod y tripiau ac mae nifer o ddosbarthiadau eisoes wedi bod i leoedd cyffrous. Aeth Dosbarthiadau Culhwch ac Olwen, Pwyll a Rhiannon a Blodeuwedd i Fferm Ffoli. Aeth Dosbarthiadau Jac y Jwc a Sali Mali i Bicnic y Tedis ym Mharc Ynysangharad. Mae'r dosbarthiadau eraill yn edrych ymlaen at eu tripiau nhw yn fawr iawn.

Chwaraeon

Mae tîm pêl-droed blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn cystadlu mewn twrnament arall ac yn ôl eu harfer, fe wnaethant yn wych. Mae tîm pêl-droed merched yr ysgol yn mynd o nerth i nerth ac fe wnaethant yn arbennig o dda yn eu twrnament nhw ar gaeau chwarae Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest.

Peidiwch ag anghofio am ein tîm pêl-rwyd. Mae Mrs Lockett wrth ei bodd â'u hymroddiad a'u cynnydd. Yng nghystadleuaeth yr Urdd, chwaraeodd pob aelod o'r tîm yn dda iawn. Ardderchog blant.

Ymladdwyr tân

Daeth Ymladdwyr Tân Pontypridd i'r Ysgol i siarad gyda blwyddyn 2 a 5 am ddiogelwch tân. Roedd pawb wedi dysgu llawer am hyn ac yn mynd i rannu'r negeseuon pwysig gyda'u teuluoedd. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon lwcus i gael gweld yr injan dân a dysgu am yr holl offer hanfodol.

Colofn Blasus ac Iachus

Eluned Davies-Scott

Ydych chi'n edrych mlaen at sŵn cyfeillgar Greensleeves, Oranges And Lemons neu O Sole Mio yr haf yma?

Ydy, mae'n dymor hufen iâ.
Dyma felysfwyd sy'n cael ei fwynhau ledled y byd gyda hanes hir a diddorol; ond mae'n anodd gwahaniaethu rhwng ffeithiau gwir a mythau.

Ai marchogion Mongolia oedd yn gyfrifol am ei greu gyntaf wrth fynd â hufen mewn coluddion anifeiliaid ar eu teithiau hir yn y gaeaf? - yn dybiedig crëwyd hufen iâ wrth i'r hufen gael ei ysgwyd yn egnïol ac yna ei rewi gan y tymheredd rhewllyd tra bont yn carlamu ar draws anialwch Gobi.

Neu'r Moghuls o India ddaeth a fo o Kabul yn Afghanistan, gwlad sy'n enwog am fod yn groesffordd rhwng y dwyrain a'r gorllewin?

Mae tystiolaeth fod pwdin o reis a llaeth byfflo wedi'i rhewi yn boblogaidd yn Tsieina hynafol ac efallai mai Marco Polo ddaeth a hufen iâ o'r Tsiena yn y 13eg ganrif (er bod rhai haneswyr yn honni na gyrhaeddodd mor bell â Tsiena ar ei deithiau).

Neu, efallai fel y honnir ar un wefan, darganfuwyd hufen iâ gan Christopher Columbus 250 mlwyddyn cyn i'r melysfwyd hwn gyrraedd Gogledd America.

Tybed a wnaeth Ymerawdwyr Rhufeinig ei greu wrth anfon eu caethweision i'r mynyddoedd i gasglu eira ffres i'w flasu â ffrwythau ac aeron?

Gallech fynd ar daith byd cyfan a dal heb fod yn agosach at ddod o hyd i wir darddiad y melysfwyd diddorol yma.

Yn ôl chwedl, cynhaliodd Brenin Siarl Iaf o Loegr wledd lle gweiniwyd pwdin newydd wedi ei greu gan ei gogydd oedd yn debyg i hufen iâ. Roedd y brenin wedi ei blesio gymaint talodd 500 punt y flwyddyn i'r cogydd i gadw ei rysáit yn gyfrinach a dim ond ei weini ar y bwrdd brenhinol.

A beth am y syniad bod Margaret Thatcher wedi dyfeisio hufen iâ sgŵp meddal yn ystod ei chyfnod fel gwyddonydd ymchwil ym 40au'r ganrif ddiwethaf? Nid oes tystiolaeth wirioneddol o hyn. Roedd ei hamser gyda chwmni Lyons ymhell wedi i hufen iâ meddal ddod yn boblogaidd iawn mewn ffeiriau, carnifalau a pharciau difyrion America yn y 1930au.

Yn sicr, hyd nes iddo ddod ar gael yn rhwydd, roedd hufen iâ yn rhagorfraint y cyfoethog. Cymaint ddaeth y diddordeb a'r galw am hufen iâ nes i dai iâ gael eu hadeiladu ar stadau; ac mae enghraifft dda i'w weld yng ngardd Castell Powys. Roedd rhew, a 'ffermiwyd' yn y gaeaf o lynnoedd, pyllau ac afonydd yn cael ei storio o dan wellt a rhisgl ac yn cael ei ddefnyddio i oeri diodydd a gwneud hufen iâ yn yr haf.

Mrs Mary Eales oedd y cyntaf i roi rysáit 1718 mewn llyfr coginio Saesneg ond nid yw hi'n cynnwys proses ar gyfer gwneud yr iâ yn llyfn, ac mae'r dechneg yn cynnwys llawer o rew: nid peth hawdd i ddod o hyd iddo yn y 18fed ganrif. Dechreuodd Carlo Gatti fewnforio iâ o Norwy o tua 1860, gan gludo'r iâ i fyny Afon Tafwys i warws iâ mawr oedd wedi adeilad ger King's Cross Llundain gan storio'r iâ mewn dwy ffynnon iâ mawr.

Er ei bod hi bron yn angof heddiw, i Agnes Bertha Marshall rhaid i ni ddiolch am ddatblygiad hufen iâ ar gyfer pobl gyffredin. Dyma wraig oedd ymhell o flaen ei hamser ac fe gafodd y teitl 'Queen of Ices' am ei gwaith ar hufen iâ a phwdinau rhew eraill. Yn dod o Walthamstow yng ngogledd-ddwyrain Llundain, sefydlodd ysgol goginio boblogaidd, cyhoeddodd bedwar llyfr coginio llwyddiannus, lansiodd gylchgrawn a dyfeisiodd, a chafodd patent, y gwneuthurwr hufen iâ cartref cynharaf yn 1885. Mae Heston Blumenthal yn galw Marshall yn "un o'r arloeswyr coginio mwyaf a welodd y wlad hon erioed". Hi oedd y cyntaf i feddwl am ddefnyddio aer hylifol i wneud hufen ia a blasu pwdinau wedi'u rhewi gyda chynhwysion anarferol fel yn giwcymbr, sbigoglys, pysgod wedi'u stiwio, past cyri a jel aspic. Ymhell cyn i Heston gychwyn ei arbrofion ar gyfer y fwydlen i'w fwyty 'The Fat Duck'.

Bu Agnes hefyd yn ymgyrchu am well deddfau hylendid a fyddai yn y pen draw yn rhoi diwedd ar y gwerthiant ar y 'penny licks', sef gwydrau bach a defnyddiwyd gan werthwyr strydoedd i gynnig hufen iâ rhad; roedd y prynwyr yn llyfu'r hufen iâ o'r gwydr cyn ei roi'n ôl i'w ail ddefnyddio. Gyda'r 'hokey pokey' werthwyd ar strydoedd Llundain yng nghanol y 1800au nid oedd hufen iâ yn ddiogel i'w fwyta ac yn gallu achosi difftheria, y dwymyn goch, dolur rhydd, a thwymyn enterig. Darganfuwyd nifer o wahanol facteria, ffibr cotwm, llau, gwely chwilod, coesau chwilod, chwain, gwellt, gwallt dynol, a blew cath a chi mewn samplau o hufen iâ gan Swyddog Meddygol Cyngor Sir Llundain.

Credir bod yr enw hokey pokey yn amrywiad ar "hocus pocus"; neu, yn ôl rhai, yn deillio o werthwyr stryd Eidaleg yn galw "eco un poco" ("dyma ychydig") neu "O che poco" ("O, pa mor rhad").

Erbyn heddiw, mae'n debyg mai'r perygl mwyaf wrth fwyta cornet fanila ydy mymryn o *brain-freeze*.

Beth sy'n achosi hyn? Mae 'rhewi'r ymennydd' yn cael ei achosi gan oeri capilarïau'r sinysau, pan fydd rhywbeth fel hufen iâ yn mynd i mewn i'ch ceg. Mae hyn yn arwain at gulhau'r pibellau gwaed. Yna, mae aer yn gweithredu fel symbylydd cynnes a'r pibellau gwaed yn lledu. Y newidiadau cyflym hyn ger ardaloedd sensitif y daflod sy'n creu teimlad o rewi ymennydd.

Gyda dyfodiad rheweiddio mecanyddol, oedd yn defnyddio trydan a nwy, ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, nid oedd angen cyflenwad anferth o iâ mwyach ac roedd modd cludo a storio hufen iâ. Dyma wnaeth y diwydiant hufen iâ'r hyn yw erbyn heddiw.

Mae pawb yn gyfarwydd â dylanwad mewnfudwyr Eidalaidd ar y diwylliant caffis yng Nghymru. Yn cael eu hadnabod fel 'Bracchis', ar ôl un o'r teuluoedd Cymraeg-Eidaleg mwyaf adnabyddus, bu'r caffis hyn yn gymorth i gyflwyno hufen iâ i Gymru, gyda throliau hufen iâ a pharlyrau yn dod yn olygfa gyffredin a phoblogaidd yn y cymoedd a thu hwnt. Mae rhai o'r parlyrau hyn yn dal i fod yn lleoliadau poblogaidd ar gyfer hufen iâ ardderchog hyd heddiw.

Yn ystod 2020, roedd cyfaint gwerthiant hufen iâ a gynhyrchwyd yn werth £1.3 biliwn gyda chategorïau hufen iâ moethus a phremiwm i fyny dros 18%. Yn ôl un arbenigwr; roedd pobl yn chwilio am hwb i'r hwyliau yn ystod cyfnod clo Cofid ac mae hufen iâ bob amser wedi bod yn ffordd effeithiol a fforddiadwy o wneud hyn.

Beth yw hufen iâ a beth sy'n ei wneud mor boblogaidd, ac mor gaethiwus?

Yn draddodiadol mae wedi'i wneud o hufen neu fraster menyn, llaeth, siwgr, a chyflasynnau. Mae'r siwgrau a ddefnyddir mewn hufen iâ yn bwysicach o lawer na dim ond darparu blas! Mae lactos (siwgr mewn llaeth) yn gostwng y pwynt rhewi gan wneud yr hufen iâ yn haws i'w sgwpio, ac mae defnyddio monosacaridau (ffrwctos neu glwcos) yn arwain at hufen iâ meddalach na phe bai deusacaridau fel swcros yn cael eu defnyddio.

Parhad tudalen 13 >

Colofn Blasus ac Iachus
(Parhad)

Mae hufen iâ yn ewyn ac yn emwlsiwn ac mae angen defnyddio sefydlogyddion i atal y blas rhewllyd mewn hufen iâ e.e. echdynnyn o gwm ffa locust, darnau o wymon brown, algâu coch neu Fwsogl Gwyddelig, a gwm guar. Mae maint y crisialau iâ yn bwysig. Po leiaf yw'r crisialau, y lleiaf y gellir ei ganfod i'ch tafod, sy'n golygu y bydd yr hufen iâ'n teimlo'n fwy hufennog ac yn llai graenog. Os ydych chi eisiau hufen iâ gyda'r crisialau lleiaf, mae angen halen yn y rhew i leihau ei bwynt rhewi neu ddefnyddio nitrogen hylifol!!

Ai'r siwgr a'r hufen rydyn ni'n dyheu amdanynt, neu rywbeth mwy gwyddonol? Rydym yn bendant yn chwantu am felyster yn gyntaf, ond dilynir hyn gan 'deimlad ceg'. Mae faint o fraster llaeth (a elwir yn fraster menyn) yn bwysig. Er mwyn cael ei alw'n "hufen iâ," rhaid i gynnyrch gynnwys o leiaf 10 y cant o fraster menyn (o laeth, hufen, neu fenyn); ac mae brandiau premiwm yn tueddu i hofran tua 18 y cant. Wrth i'r siwgr a'r braster doddi ar eich tafod, mae dopamin, a chemegau eraill sy'n gwneud chi deimlo'n dda, yn cael eu tanio. Mae hyn oherwydd bod bwydydd braster uchel a chalorïau uchel, fel hufen iâ, yn sbarduno'r canolfannau pleser yn yr ymennydd, yn debyg iawn i gocên a heroin! Mewn astudiaeth yn 2015 o fwydydd â rhinweddau caethiwus, o'r 35 o fwydydd a archwiliwyd, roedd hufen iâ yn ail yn gyffredinol. Mae llaeth yn cynnwys y casein, sef protein llaeth. Mae darnau protein o'r casein yn cynhyrchu effeithiau tebyg i opiadau. Mae casomorffinau yma yn glynu wrth yr un derbynyddion ymennydd â heroin, morffin, a narcotics eraill.

Y dyfodol

Gyda gwerthiant bwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion yn ffynnu ledled y byd mae hufen iâ amgen bellach yn dod yn fwy poblogaidd gyd cwmnïau'n ceisio dynwared blas hufennog llaeth wrth ddefnyddio 'hufen' o gnau coco, ceirch, almonau a phys yn eu ryseitiau. Mae cyfreithiau bwyd Prydain yn gwahardd y cynhyrchion newydd hyn rhag cael eu galw'n hufen iâ oherwydd nad ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniad sy'n rheoli ei gyfansoddiad.

Ar hyn o bryd nid yw'r dyfodol yn ymddangos mor ddisglair ag oedd y llynedd. Yn ôl erthygl ddiweddar yn y Guardian, mae gwerthwyr hufen iâ, yn enwedig y rhai sydd â faniau, yn wynebu argyfwng sy'n effeithio'n ddifrifol ar eu bywoliaeth, gyda'r cynnydd diweddaraf mewn prisiau eisoes yn effeithio ar werthiannau. Mae cynnydd cost tanwydd, pris llaeth a hufen yn ogystal â chostau ychwanegol wrth brynu siwgr, decstros a phowdr llaeth cnau coco yn eu taro'n galed. Gyda phrinder 'Flakes' â chwsmeriaid hefyd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd mae gwerthwyr hufen iâ'n prysuro'r angen i edrych ar opsiynau eraill. Felly efallai fydd eich '99' yn 'hufen iâ' sy'n seiliedig ar gywarch (hemp) yn y dyfodol. Ond, mae'r gwerthwyr hufen iâ yn optimistaidd; fel dywedodd un ohonynt mae'r teimlad o Mr Whippy yn toddi lawr eich bysedd yng ngwres yr haul mynd i barhau "other things come and go, but it's the 99 that stays".

Pa un yw eich ffefryn?

Yn 2021 adroddwyd fod wyth deg pedwar y cant o barlyrau hufen iâ'r DU yn dweud mai fanila yw eu blas hufen iâ sy'n gwerthu orau. Yr ail a'r trydydd blas mwyaf poblogaidd oedd Mint Chocolate Chip (20 y cant) a Siocled (18 y cant). Gyda llaw - mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod ymateb pleserus yr ymennydd i hufen iâ yn lleihau os caiff ei fwyta'n rhy aml!

Enillydd Gwobr Dysgwyr

Bethan Davies fu'n holi Joshua Osborne, enillydd Gwobr Dechreuwyr Cymraeg Sefydliad Dysgu a Gwaith. Mae Joshua yn dod o Loegr a dechreuodd ddysgu Cymraeg ar gwrs arbrofol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yna aeth ar gwrs dwys yn y Gymraeg gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Pam penderfynoch chi ddechrau dysgu'r Gymraeg?
Anfonwyd linc i fi gan fy nghariad, Angharad, achos roedd hi'n meddwl y baswn i'n ei joio

Sut mae dysgu'r Gymraeg wedi eich helpu chi?
Mae wedi bod yn braf yn ystod y cyfnod clo - cael rhywbeth i wneud bob wythnos a rhywbeth i fy angori. Dw i wedi darganfod cymuned sy'n siarad Cymraeg, ac wrth gwrs mae'n bleser i fod yn rhan ohono.

Sut dych chi'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd?
Dw i'n siarad tipyn bach gyda fy nghariad, a hefyd dw i'n edrych am bethau i'w wneud yn y dre neu o gwmpas. Mae'r gwaith wedi rhoi caniatád i mi ddysgu Cymraeg 9 awr yr wythnos ond dyw'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim yn siarad Cymraeg -- maen nhw wedi bod yn garedig iawn!

Yn naturiol dw i hefyd yn gwrando ar Radio Cymru.

Sut brofiad oedd hi i ennill Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd?
Dw i'n credu roedd tipyn bach o sioc arna i, ond dw i nawr mor ddiolchgar ar ôl dod yn fuddugol. Roedd Eisteddfod yr Urdd mor hyfryd - y tro cyntaf i mi fod mewn unrhyw eisteddfod! Roedd hi'n braf cael fy amgylchynu gan Gymry a gallu teimlo fy mod i'n rhan o rywbeth mor fawr.

Beth yw'r peth gorau am ddysgu'r Gymraeg?
Credwch neu beidio, gramadeg yw'r testun rwy'n joio mwyaf - ond am ddysgu Cymraeg, mae'n gymuned mor groesawgar a charedig. Mae hi wedi bod yn bleser cwrdd â phawb.

Beth yw'r peth anoddaf am ddysgu'r Gymraeg?
Yr eirfa; mae cof ofnadwy gyda fi, felly maen nhw'n mynd o ben y tiwtor i fy nodyn heb fynd trwy fy mhen.

Beth yw'ch cyngor i rywun sy'n dysgu'r Gymraeg?
Ewch ar eich cyflymder eich hun - mae dysgu fel oedolyn yn hollol wahanol i ddysgu fel plentyn, chi sydd wrth lyw'r llong, mae'r tiwtoriaid yma i gefnogi chi. Hefyd triwch *Say Something In Welsh*. Dyma'r ffordd cyflymaf i fagu hyder.

Beth yw'ch cyngor i rywun sy'n ystyried dysgu'r Gymraeg?
Ewch amdani! Beth yw'r gwaethaf sy'n gallu digwydd? Os ydych chi'n ystyried dysgu Cymraeg, yna mae'n siŵr fod digon o resymau gennych chi yn barod - Ewch!!!

Beth yw'ch hoff air neu ymadrodd Cymraeg?
Dw i'n hoffi "Bwrlwm". Dw i'n casglu sawl ymadrodd mewn rhestr wrth i mi glywed nhw yn y dosbarth - o'r rheina, dw i'n hoff iawn o ddyfal donc. Mae'r rhythm yn braf.

Y Cynllun Siarad

Os hoffech chi fod yn rhan o'r Cynllun Siarad, 'dyn ni'n chwilio am siaradwyr Cymraeg a fyddai'n bartneriaid i ddysgwyr Cymraeg, mi fyddech chi'n helpu drwy siarad â'ch partner. Dim ond siarad sydd angen i chi wneud – pethau bach bob dydd. Nid gwersi ydyn nhw, ond cyfle i ddysgwyr sydd bron yn rhugl i gael sgwrs Gymraeg naturiol gyda rhywun sy'n siarad Cymraeg.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://learnwelsh.cymru/media/12428/y-cynllun-siarad_cymraeg.pdf

Ysgol Garth Olwg

Gweithgareddau Cerddorol
Ar ddydd Gwener Mehefin 17eg cafodd rai o ddisgyblion blwyddyn 9 gyfle i fynychu gweithdy drymio gyda Mr Mark Galozzi-Hibbert. Roedd yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau ensemble ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr!

Braf oedd croesawu Mei Gwynedd nôl i gynnal gweithdai cyfansoddi gyda disgyblion blwyddyn 7-10. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu sut i gyfansoddi caneuon poblogaidd. Cyfansoddwyd a pherfformiwyd dwy gân wreiddiol ac roedd y disgyblion wrth eu bodd!



Cwis Llyfrau 2022
Teithiodd tîm cwis llyfrau blwyddyn 3 a 4 i Aberystwyth er mwyn cystadlu yn rownd derfynol Cwis Llyfrau Cymru. Roedd angen recordio fideo yn hysbysebu nofel o flaen llaw ac roedd angen cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp dwys iawn am nofel. Er nad oeddent yn fuddugol, roedd e'n brofiad hwyl a bythgofiadwy. Ymwelodd y tîm â wal Cofiwch Dryweryn ar y ffordd gartref ac aethon nhw hefyd i Aberaeron am hufen iâ blasus!

Young Writers
Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 4 am ysgrifennu cerddi gwych sydd wedi'u dewis i gael eu cyhoeddi gan Young Writers!

Gwyddonwyr Garth Olwg Technocamps
Fe wnaeth Technocamps ymweld gyda'r adran Wyddoniaeth er mwyn cynnal gweithdy Technocamps gyda disgyblion blwyddyn 9. Cafodd y disgyblion y cyfle i adeiladu a rhaglennu robot lego fel rhan o'r sesiwn gan geisio rheoli symudiadau a hefyd creu synau gwahanol. Roedd y gweithdy'n gyfle gwych i'r disgyblion flasu sgiliau rhaglenni newydd tra'n gweithio'n llwyddiannus fel tîm. Hoff beth 9PEN2 am y gweithdy oedd gweld sut roedd codiau gwahanol yn effeithio ar symudiad y robot a cheisio cael y robot i gyrraedd diwedd y fainc heb gwympo oddi arni! Diolch yn fawr iawn i Technocamps am y profiadau yma!

Gweithdy GIST

Cafodd criw o ferched blwyddyn 9 y cyfle i fynychu gweithdy STEM yng Ngholeg y Cymoedd mis yma. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i'r disgyblion ymgymryd mewn sawl gweithdy cyfrifiaduro a rhaglenni er mwyn ceisio hybu diddordeb merched o fewn y pynciau STEM. Fe wnaeth y merched fwynhau'r sesiynau gwahanol (a'r freebies!) ac mae'r profiad wedi agor eu llygaid i bynciau nad oeddent wedi ystyried o'r blaen. Diolch yn fawr iawn i Technocamps a Choleg y Cymoedd am drefnu'r diwrnod.

Gweithdy ymarferol Cemeg Lefel A
Fe wnaeth disgyblion blwyddyn 12 sy'n astudio lefel A Cemeg gael y cyfle i fynychu gweithdy ymarferol ym mhrifysgol Abertawe. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych iddynt gyflawni sawl gweithgaredd ymarferol gan gynnwys synthesis dau gam, titradiad am nôl a chynhyrchu asbirin mewn labordai newydd sbon. Cafwyd y cyfle hefyd i gydweithio gyda myfyrwyr yr adran Gemeg. Rhai o uchafbwyntiau'r dosbarth oedd gweithio mewn labordy go iawn a gwella'u hyder wrth gwblhau gwaith ymarferol. Diolch yn fawr iawn i Brifysgol Abertawe am y croeso cynnes.



Arddangosfa Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cafodd rai o ddisgyblion Safon Uwch yr adran Dechnoleg y cyfle i arddangos ein gwaith creadigol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Roedd yna amryw o bynciau o dan y gangen celf a dylunio yn cael eu harddangos gan gynnwys ffotograffiaeth, celf, 3D a thecstilau sydd i gyd yn cael eu cynnig yn ein hysgol ni. Mi oedd hwn yn brofiad anhygoel i allu dangos yr holl waith caled sydd wedi cael ei wneud dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf i'n rhieni, ffrindiau ac eraill sydd â diddordeb yn y pwnc. Mi oedd yn ysbrydoledig iawn hefyd i allu cerdded o gwmpas yr arddangosfa a gweld gwaith pobl ifanc o ysgolion eraill a oedd yn cyffwrdd rhannau o gelf gwbl wahanol i beth wnaethom ni, ond yr un mor ddiddorol. Roedd y cyfle yma wedi caniatáu i ni ddeall a gwerthfawrogi ein celf a'n gwaith caled gan roi'r hwb i ddal ati ar gyfer y dyfodol wrth i ni barhau gyda'n hastudiaethau o fewn y maes celf a dylunio. Gan Ffion Fairclough Blwyddyn 12.

Gwobr arian Siarter Iaith
Ychydig wythnosau yn ôl cafodd yr ysgol newyddion penigamp ein bod wedi ennill y wobr arian. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Pwyllgor Cymreictod yn brysur iawn yn cynnal llu o weithgareddau fel taith gerdded i fyny'r Garth i hybu'r Gymraeg, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn eu dosbarthiadau a defnyddio ystod eang o eiriau gwych yn eu geirfa bob dydd yn yr ysgol.

Parhad tudalen 15 >

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Roeddem ni yn falch iawn o dderbyn y wobr yma. Ymlaen at yr aur tro nesaf!

Gwasanaeth Meithrin arferion cadarnhaol.
Ar ddechrau'r tymor hwn cafodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf y fraint o gynnal gwasanaeth am feithrin arferion cadarnhaol i ddisgyblion yr Ysgol Hŷn. Ardderchog blantos roeddech chi yn wych!

Ymweliad Saoirse Anton
Roedd criw o flwyddyn 8 yn ffodus i gael ymweliad gan y bardd Saoirse Anton o Iwerddon. Ar ôl gweithdy sbardun, llwyddodd y disgyblion i ysgrifennu cerddi gwych a gwaith celf creadigol iawn. Roedd e'n brofiad cyffrous dros ben. Diolch yn fawr!

Ysgolion Haf
Llongyfarchiadau i Catrin England o flwyddyn 11 ar gael ei dewis i fynychu Ysgol Haf Prifysgol Aberystwyth ar gyfer dysgwyr Seren Sylfaen yn unig. Bydd Catrin yn cael y cyfle i astudio Newid Hinsawdd. Mae'n glod mawr iddi gael ei dewis a dymunwn yn dda iddi.

Prosiect Medrau
Cawsom ni fore bendigedig yn yr Hen Lyfrgell Porth ar yr 11eg o Fehefin yn dysgu drymio Samba gyda Rhys Thomas. Cafodd y grŵp y cyfle i arbrofi gyda gwahanol ddrymiau a chael hwyl yn dysgu rhythmau gwahanol. Roedd hi'n hyfryd gweld pobl o bob oed yn dod at ei gilydd i ddysgu sgil newydd a mwynhau. Bydd Rhys, sydd hefyd yn creu ei ddrymiau ei hun gyda'r cwmni Tarian Drums, yn cynnal sesiynnau ym Mharti Ponty eleni ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal rhagor o weithdai gyda fe yn y dyfodol.

Noson Lawen y Porth
Roedd y Fenter yn falch i fod yn rhan o'r digwyddiad hyfryd yma yn yr Hen Lyfrgell Porth. Cafwyd perfformiadau gwych gan Gôr Cambrian, Morus Jones, Evan Davies ac ein grŵp gitâr sydd wedi ffurfio fel rhan o Brosiect Medrau. Roedd y lle yn llawn o hwyl a phawb yn mwynhau'r wledd o gerddoriaeth. Diolch yn fawr i Teleri a Glyn am noson fendigedig.

Ysgol Roc
Braf iawn oedd gweld rhai o gerddorion ifanc y sir yn perfformio yn Nhafwyl ar ôl cymryd rhan yng ngweithdai Ysgol Roc Cerdd Cymunedol Cymru a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Bydd grŵp o gerddorion lleol hefyd yn perfformio ym Mharti Ponty dros y penwythnos. Da iawn chi!

Parti Ponty
Diolch i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant Parti Ponty 2022.

Dilynwch ni!
Facebook: @MenterRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct

Llongyfarchiadau i Grace Rogerson o flwyddyn 11 ar gael ei dewis i fynychu Ysgol Haf Colegau Christ's, Murray Edwards a Sidney Sussex yng Nghaergrawnt ym mis Awst i astudio Hanes. Mae'n glod mawr iddi gael ei dewis allan o gannoedd o ddisgyblion ar draws y DU.

Athletau
Llongyfarchiadau i fechgyn Blwyddyn 10 sydd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol Athletau Cymru ym mis Gorffennaf.

Ysgol Creigiau

Eisteddfod yr Urdd
Ddydd Llun a Dydd Mawrth, yn ystod hanner tymor Sulgwyn, cystadlodd nifer o'n disgyblion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych. Perfformiodd pob un yn wych. Daeth Gwen, Dosbarth 2, yn gyntaf ar y Llefaru Blwyddyn 2 ac iau, y Grŵp Llefaru i Ddysgwyr yn gyntaf a'r Ymgom i Ddysgwyr yn ail. Rydym yn hynod falch o'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu ac yn cynrychioli'r ysgol mor wych. Diolch i'r staff am hyfforddi'r disgyblion a hefyd diolch o galon i'r holl rieni a theuluoedd am eu cefnogaeth ac am deithio i Ogledd Cymru.

1af Grwp Llefaru i Ddysgwyr

2ail Ymgom i Ddysgwyr

Llwyddiant Criced
Yn ystod hanner tymor Sulgwyn roedd Gwennan, Dosbarth 6, a Freya, Dosbarth 5, wedi cynrychioli Criced Dwyrain Cymru mewn gêm griced yn erbyn Millfield. Buont hefyd yn chwarae mewn twrnamaint yn Aberdâr. Chwaraeodd y ddwy yn arbennig gan gymryd llawer o wicedi a sgorio nifer dda o rediadau. Ardderchog ferched - rydyn ni'n hynod falch ohonoch chi!

Bomiau Bath!
Ymwelodd dau gyflogwr o gwmni Lush â disgyblion Dosbarth 4 a Class 4. Fel rhan o

Blwyddyn 4 yn creu Bomiau Bath

Gyd-destun Dysgu Blwyddyn 4 y tymor hwn, cafodd y disgyblion gyfle i wneud eu bomiau bath eu hunain. Roeddent i gyd wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac roedd yr ysgol yn arogli'n fendigedig trwy'r dydd!

Gwneud y naid i'r Ysgol Uwchradd
Cymerodd disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 ran mewn gweithdy 'Gwneud y naid i'r Ysgol Uwchradd' a gyflwynwyd gan gydlynydd Addysg Ysgolion 'Bullies Out'. Mwynheuon nhw'r gweithdy yn fawr a dysgon nhw negeseuon gwerthfawr a phwysig.

Tafwyl
Ddydd Sadwrn, Mehefin 18fed, perfformiodd disgyblion Dosbarth 2 ar lwyfan Ysgolion y Tafwyl. Canodd pob un yn wych. Diolch i Miss Thomas, Miss Brunt a Mrs Tewkesbury am hyfforddi'r disgyblion ac i Mrs Davies am gyfeilio a diolch i'r holl rieni a theuluoedd am gefnogi.

Cystadleuaeth Gemau Caerdydd
Ddydd Mawrth aeth wyth o ddisgyblion i'r Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol yng Nghyncoed i gystadlu yng Nghystadleuaeth 'Quad Kids' Gemau Caerdydd. Cystadlodd Gruff G, Gruff E, Ollie, Sam, Mali, Megan, Emmy ac Ava yn

erbyn 18 o ysgolion eraill mewn pedwar camp - gwibio 75m, naid hir lonydd, taflu 'Vortex Howler' a 600m. Roedd perfformiad pob disgybl wedi'u hamseru/ mesur. Wythnos yn ddiweddarach fe glywsom mai Ysgol Creigiau oedd y pencampwyr. Llongyfarchiadau enfawr i'r wyth disgybl!

Sêr Stwnsh Sadwrn!
Ymddangosodd pedwar disgybl o Ddosbarth 6 ar raglen 'Stwnsh Sadwrn' ar S4C yn ddiweddar. Ymunodd Mabon, Deiniol, Nansi ac Alys yn yr holl gemau a gweithgareddau a chael llawer o hwyl! Da iawn chi'ch pedwar!

Mabolgampau
Roedd hi'n hyfryd cael gwahodd ein teuluoedd i'r ysgol ar ôl dwy flynedd heriol er mwyn mwynhau ein Mabolgampau. Cawsom brynhawn gwych ac roedd holl gymuned yr ysgol wrth eu boddau. Einion oedd y llys buddugol ar ddiwedd prynhawn prysur o gystadlu. Diolch i bawb am ddod i gefnogi a helpu gwneud y diwrnod yn un llwyddiannus.

Gwibdeithiau Ysgol

Capteiniaid ein Mabolgampau

Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 6 eu gwibdaith haf i Ganolfan Hwylio Caerdydd. Cawsant brofiad bythgofiadwy. Aeth disgyblion Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 i Ganolfan Dŵr Gwyn Caerdydd. Dychwelodd y disgyblion i'r ysgol gan ddweud, "Dyna'r trip orau erioed!"

Cystadleuaeth Carnifal Creigiau
Bu pob plentyn yn brysur yn ddiweddar yn cynllunio clawr ar gyfer rhaglen Carnifal Creigiau. Cynlluniwyd y lluniau buddugol gan: 1af – Elsie, Class 6, 2ail – Noa, Dosbarth 1, 3ydd – Rhys, Dosbarth 6.
Dewiswyd dyluniad Elsie i fod ar glawr blaen y rhaglen eleni. Derbyniodd y disgyblion buddugol daleb rhodd. Da iawn i'r holl ddisgyblion a gystadlodd - roedd eich lluniau i gyd yn wych!

Parhad tudalen 17 >

Ysgol Llantrisant

Ymweliad â'r Senedd
Aeth disgyblion Blwddyn 6 i Fae Caerdydd i gwrdd â Heledd Fychan AS a Mick Antoniw AS gan fod Briallen wedi ennill cystadleuaeth i gynllunio cerdyn Nadolig. Cafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau ac I leisio barn ynglŷn â sut i greu newid yn y gymuned. Diolch yn fawr am y croeso. Cafodd y plant syrpreis hyfryd arall wrth grwydro'r Bae gan iddyn gwrdd â neb llai na'r actor o Bort Talbot, Michael Sheen! Am ddiwrnod gwych i bawb!

Chwaraeon yr Urdd
Llongyfarchiadau i dîmau pêl-rwyd a phêl-droed y merched am gystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd yn ddiweddar. Chwaraeodd pawb yn frwd. Da iawn ferched!

Ymweliad PC Jenkins
Diolch yn fawr i PC Jenkins am ddod i siarad â disgyblion Blwyddyn 4 am sut i gadw'n ddiogel arlein.

Gwibdaith i sw Arch Noa ym Mryste
Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 gyfle i gwrdd â phob math o anifeiliaid yn

ddiweddar yn Sŵ Arch Noa. Cawson nhw gyfle i gyffwrdd â rhai o'r anifeiliaid hefyd. Rydych chi'n ddewr iawn blantos!

Diogelwch y ffordd
Diolch i Matt o gyngor Rhondda Cynon Taf am ddod i siarad â phlant Blwyddyn 2 ynglŷn â sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

Hafan Lles
Daeth cwmni Landscapes for Learning i osod hafan lles newydd sbon i ni. Mae'n edrych yn wych ac mae'r plant yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael defnyddio'r hafan.

Ysgol Creigiau (Parhad)

Blwyddyn 6 yng Nghanolfan Hwylio Caerdydd

Dosbarth 4 yn Nghanolfan Dŵr Gwyn Caerdydd

Gwneuthurwyr Ceir

Digwyddais weld rhaglen hen bethau ar y teledu rhyw brynhawn a chlywed taw Cymro oedd wedi sefydlu cwmni oedd yn adnabyddus am gynhyrchu moduron moethus. Ei enw oedd T G John. Roeddwn i'n ymwybodol bod Charles Rolls, cyd-sylfaenydd y Rolls Royce, yn gysylltiedig â Chymru, ei deulu yn hannu o Langattock yn Sir Fynwy. Yn ogystal, fel sawl un sy'n darllen Tafod Elái, gwyddwn am y cwmni ym Mhentre'r Eglwys a gynhyrchai'r Gilbern ac am y ddau sefydlydd - Giles Smith a Bernard Friese. Ond John; pwy oedd e'? Llwyddais i gael hyd i beth o'i hanes a dyma grynodeb o'r hyn ddaeth i'r golwg.

Ganwyd Thomas George John yn Noc Penfro ym 1880, yr ail o bedwar o blant ac yn ôl pob sôn roedd y Gymraeg i'w chlywed ar yr aelwyd. Saer llongau oedd ei dad, ac wedi dyddiau ysgol aeth John yn brentis yn nociau'r dre. Mae'n amlwg ei fod yn berson galluog oherwydd enillodd ddwy ysgoloriaeth i'r Coleg Gwyddoniaeth Brenhinol yn Llundain, sefydliad ddaeth maes o law yn rhan o Goleg Imperial Llundain. Wedi ei gyfnod yn y Coleg bu'n gweithio mewn sawl iard longau cyn ymuno â iard Vickers yn Barrow-in-Furness, y mwyaf o'r cwmnïau oedd yn adeiladu llongau ar gyfer y llynges Brydeinig. Yno, yn 31 mlwydd oed fe'i dyrchafwyd yn rheolwr yr iard, yr ieuengaf i ddal swydd o'r fath.

Thomas George John

Tra'n gweithio yn Barrow priododd ferch o Ddoc Penfro - Louie Jane Rees - a chawsant un ferch, Dulcie Maria. Gŵr busnes oedd William Rees, brawd Louie a bu'n gymorth ariannol a chynghorydd busnes gwerthfawr i John yn ystod ei yrfa.

Â'r pwyslais ar gryfhau'r llynges yn wyneb twf llynges yr Almaen roedd yr iard yn sefydliad allweddol. Yn ogystal â llongau bu John yn ymwneud ag adeiladu llong awyr (*airship*), y cyntaf ym Mhrydain. Yn anffodus ni fu'r fenter yn llwyddiant gan i'r llong, ar gychwyn y treialu, gael ei thorri yn ei hanner gan wyntoedd cryf. Bu hefyd yn gweithio ar gynllun cyfrinachol i adeiladu llong danfor. Fodd bynnag, gorffennodd ei gysylltiad â'r gwaith hwn yn ddisymwth ym 1915 a gadawodd Vickers gan fynd yn beiriannydd gyda chwmni moduron Siddeley-Deasy (rhagflaenydd cwmni Armstrong Siddeley) a symud i Coventry.

Bu gyda'r cwmni am dair blynedd cyn mynd ar ei liwt ei hun a sefydlu cwmni yn ei enw ar gyfer cynhyrchu injanau disymud. Yn fuan trodd at adeiladu ceir ac ym 1921 mabwysiadwyd enw newydd i'r cwmni sef *The Alvis Car and Engineering Company*. Dyma felly enedigaeth yr enwog Alvis. Mae tarddiad yr enw yn niwlog; rhai yn awgrymu cysylltiad â mytholeg Norwyaidd. Eraill yn honni iddo gael ei ddewis oherwydd ei fod yn hawdd i'w ynganu.

Yn wreiddiol amcan John oedd adeiladu ceir bach 4 silindr pwerus nad oedd yn or-ddrud. O ganlyniad cafwyd cryn lwyddiant mewn cystadlaethau rasio. Enillwyd yn Brooklands, prif ganolfan rasio Prydain yn y 20au a'r 30au a'r lle y torrodd Malcolm Cambell sawl record, yn ogystal ag yn Le Mans. Er bod y llwyddiannau yn dwyn bri i enw Alvis roedd John yn pwysleisio taw prif bwrpas cystadlu oedd rhoi cyfle i brofi a gwella cynnyrch y cwmni.

Ym 1927 cychwynwyd cynhyrchu ceir 6 silindr moethus a mwy o faint. Ernes o flaengaredd John a'i gydweithwyr yw'r ffaith taw'r cwmni oedd y cyntaf i gyflwyno gêrbocs '*synchromesh*'. Roedd hefyd ymhlith y cyntaf i ddefnyddio gyrriant olwynion blaen.

Gan synhwyro sut roedd yr hinsawdd ryngwladol yn datblygu ganol y tridegau trodd golygon y cwmni at gynhychu injanau ar gyfer awyrennau ac at adeiladu moduron arfog gan godi ffatri newydd yn Coventry. Wedi i'r Ail Ryfel Byd gychwyn trodd y cwmni'n gyfangwbl at gynhyrchu offer ar gyfer y fyddin ac, yn sgil hynny, roi'r gorau i adeiladu ceir.

Yn ystod y 30au, ag yntau yn ŵr adnabyddus erbyn hyn, symudod John i blasdy yn Kenilworth. Yno byddai yn gwahodd ystod eang o bobl flaenllaw yn ogystal â mawrion y byd moduro megis Andre Citreon ac Ettore Bugatti. Magodd ddiddordeb mewn ceffylau gan ddod yn farchogwr brwd nid yn unig adre ond hefyd ar y cyfandir. Nid pleser oedd yr unig reswm tros groesi'r Sianel oherwydd roedd yn ymgymryd â chryn dipyn o'r gwaith o arbrofi ceir.

Yn anffodus dioddefodd salwch hir yn ystod ei flynyddoedd olaf a bu'n rhaid iddo ymddeol ym 1944. Bu farw ym mis Awst 1946 yn 66 mlwydd oed.

Ail gychwynwyd adeiladu ceir wedi i'r rhyfel ddod i ben. Un a fu'n gweithio yn y cwmni yn y 50au oedd Alec Issigonis, gŵr ddaeth yn fyd-enwog wedyn am gynllunio'r Mini. (Gweler, isod, grynodeb o'i hanes gan Wyn Jones.) Ym 1965 daeth Alvis yn rhan o gwmni Rover ond ddwy flynedd yn ddiweddarach, bu'n rhaid rhoi terfyn ar gynhyrchu'r car oherwydd trafferthion ariannol . Fodd bynnag, nid dyna ddiwedd y stori oherwydd sefydlwyd cwmni (*Red Triangle*) gan rai o'r cyn-weithwyr ar gyfer cynnal gwasanaeth cynnal a chadw . Yn sgil hyn atgyfodwyd cwmni Alvis gyda'r bwriad o ail-gychwyn adeiladu ceir ar raddfa fechan.

Ysgwn i faint o ddarllenwyr Tafod Elái sy' wedi teithio mewn Alvis neu efallai yrru un? A sawl un sy'n gwybod am

Thomas George John? Rwy'n sicr, o'r hyn rw'i wedi darllen amdano ei fod yn haeddu cael ei gydnabod fel gwir arloeswr mewn cyfnod pan oedd moduro yn ei lencyndod a chryn ramant yn perthyn i'r diwydiant. Braf pe rhoddid mwy o sylw i beirianwyr a thechnolegwyr disglair o Gymru megis Thomas George John a fu, neu sy'n llwyddiannus yn eu priod faes.
Rowland Wynne

Alec Issigonis



Yr athrylith o Eifionydd, Wil Sam ddwedodd na tydi ceir a moto beics ddim wedi cael lle teilwng yn ein llenyddiaeth. Gwneud iawn am hyn wnaeth erthygl Rowland am yr hen wneuthurwyr ceir Alvis a'r cysylltiad Cymreig nad oeddwn yn ymwybodol ohono. Hynod ddiddorol i ben petrol fel fi ac yn dwyn i gof hen gymydog oedd yn berchen Alvis, slawer dydd, a hynny yn Stiniog!

Sbardunodd cyfeiriad Rowland at Alec Issigonis fi nôl i ddiwedd y 50'au – dyddiau'r ysgol gynradd. Bryd hynny roedd ambell gopi o Autocar, Motor Sport, neu Car Mechanics yn dod i'm meddiant - rheini yn uniaith Saesneg. Straffaglu i'w darllen, ond gyda chymorth cyfieithu'r Geiriadur Bach, ac fel oedd angen, yr Oxford bondigrybwyll, llwyddo'n ara' bach i fwydo'r anian yma ynof. Roedd y sgwennu yn gaboledig a drwy hynny llwyddais i fireinio fy Susnag bratiog ac yn llawer mwy diddorol na llyfrau gosod!

Yn ogystal â darllen am geir moethus fel yr Alvis, roedd erthyglau am geir cyffredin, rhai oedd yn dod yn amlycach ar y ffyrdd y 50/60'au, megis y Morris Minor a'r Mini a'i dilynodd. Bryd hynny, roedd darllen am berfformiad y ceir a'r modelau mwy pwerus megis y Mini Cooper a'r Cooper "S" yn llawer mwy diddorol a phwysicach i mi, a pha ots pwy a'i dyluniodd.

Yn aeddfetach, lledodd fy niddordeb i hanes y diwydiant ceir. Un cymeriad ymysg nifer oedd Issigonis, tad y Minor a'r Mini. Ganwyd Issigonis yn Izmir (Smyrna bryd hynny), Twrci, yn 1906. Wedi marwolaeth ei dad a thrafferthion

Parhad tudalen 19 >

gwleidyddol cyrhaeddodd Brydain gyda'i fam yn 1922 lle'r oedd yn barod hedyn o gysylltiadau teuluol.

Teulu o beirianwyr llongau oedd yr Issigonis, ond ar dechnoleg newydd oedd bryd yr Alec ifanc, yn cynnwys awyrennau, ac wrth gwrs peirianneg ceir. Yn unig blentyn, addysg anghyson dderbyniodd yn Nhwrci; dim ysgol ffurfiol, ond gwersi cartref gan deulu a ffrindiau. Arweiniodd hynny at drafferthion iddo mewn arholiadau mathemateg a'i orfodi ar gwrs llai uchelgeisiol yn y Battersea Tech. Ta waeth cafodd swydd gyda chwmni ceir Humber (Rootes yn ddiweddarach) yn 1934 a dwy flynedd wedyn symudodd at Morris Motors fel dylunydd hongiad (suspension).

Yn ystod yr ail ryfel byd gorfodwyd Morris gan y llywodraeth i ganolbwyntio ar waith at ddefnydd militaraidd. Dilynwyd y gorchymyn ond anogwyd Issigonnis yn ogystal i ddylunio prototeipiau o gar am bris rhesymol i'r farchnad ôl-ryfel arfaethedig. Galwyd y prosiect - Mosquito a bedyddiwyd y car yn ddiweddarach yn Morris Minor. Honnir i Issigonis ddweud ei fod wedi dylunio'r car cyfan o'i ben a'i bastwn ei hun; hyd yn oed y bwlyn i agor drws bach y blychau menig tu fewn. Cadarnhad gellir dadlau o'i obsesiwn awtocratig - (penci hyd yn oed) sy'n gwau drwy'r hanes ysgrifenedig amdano.

Wrth ddadorchuddio'r Mosquito cyntaf, ei ffieiddio a'i alw'n ŵy-di-botsio wnaeth penaethiaid Morris. Pa bynnag, daeth y Morris Minor ar y farchnad yn 1948. Moto i'r werin datws a gwerthwyd mwy na miliwn ohonynt dros y blynyddoedd. Wyau ar wynebau penaethiaid Morris? Tybed.

Chwyddodd ego Issigonis ar ffyniant ysgubol y Minor, ac yn 1952 llwyddodd ei gais i ennill cytundeb pum mlynedd a chyflog llawer gwell, gyda Alvis i ddylunio car campau V8 chwim. Yma bu'n cydweithio gyda Alex Moulton peiriannydd hongiadau. Datblygwyd hongiad ganddynt i'r pedair olwyn yn annibynnol - y Moulton/Issigonis.

Yn anffodus ni welodd yr Alvis V8 olau dydd, ac wedi tair blynedd dychwelodd Issigonis at y British Motor Corporation (BMC) oedd erbyn hynny yn cynnwys Morris, Austin ac eraill. Yn ogystal â methiant sylfaenol Alvis i gadw at gyllideb ac osgoi gwariant anghynaladwy ar y prosiect, awgrymir nad oedd Issigonis yn ffitio fewn i drefn a diwylliant y cwmni. Gwerth nodi bod Alvis bryd hynny yn wneuthurwyr ceir "chydig yn is na'r angylion" megis Rolls Royce, Bentley, ond yn ddiweddarach gwelwyd elfennau'r hongiad Moulton/Issigonis mewn ceir BMC.

Suez ganol y 50'au a bygythiadau dogni petrol daniodd yr angen am gar fforddiadwy, llai na'r Morris Minor, ond yn rhagori ar geir tair olwyn a cheir swigod y dwthwn hwnnw. Tasg osodwyd i Issigonis gan benaethiaid BMC. Mynnodd, a chafodd lwyr hynt i gyflawni'r gwaith yn ei ffordd ddihafal a hunanol ei hun. Awgrym pendant nad gweithiwr tîm oedd Issigonis.

Lansiwyd y Mini yn 1959. Afraid disgrifio'r car yma, gan fod y rhan fwyaf os nad pob un sy'n darllen wedi bod mewn Mini os nad wedi bod yn berchennog un rhyw adeg. O ran peirianwaith roedd gyriant drwy'r olwynion blaen, ond tybed taw rhyfygus oedd cyfuno'r injan a'r blwch gers a'i iro yn yr un olew? Mond gofyn!

Cyfaddefa Issigonis ei fod yn "anti styling" a'r car yn sicr yn adlewyrchu hynny. Yn anuniongyrchol, onid dyma ei gryfder, a llwyddiant y car? Yn fuan iawn tyfodd yn eicon yn y 60'au gyda phob math o sêr y cyfnod yn llifo i fod yn berchen Mini.

Ochr arall y geiniog oedd o ddiddordeb personol i mi a'i lwyddiannau ym myd ralio yn lleol ac ar draws y byd. O hynny datblygwyd y Mini Cooper ac yn arbennig y Cooper "S". Yn y man esblygwyd y llinach gyda'r Austin/Morris 1100, 1300, 1800 a'r Maxi.

Yn 1968 gyda rheolaeth y BMC ar ddisberod brysiwyd i ffurfio British Leyland dan ofalaeth Donald Stokes. Diweddarodd Stokes y strategaeth ynghyd â'r drefn rheoli. Trefn oedd yn wrthun i Issigonis, oedd erbyn hynny yn rhy hen i dynnu'n groes. Ymddeolodd yn dawel.

Methiant fu'r hen Stokes, ond rhygnodd ymlaen am saith mlynedd - bryd hynny roedd BL yn cynhyrchu 4 car am bob gweithiwr tra roedd Toyota yn cynhyrchu 36. Pa fodd y cwympodd y cedyrn?

Wyn Jones

O.N.Rhag ofn bod diddordeb gan ambell un, roedd y diweddar Ddiwc yn berchen ar Alvis - un dau ddrws gyda tho oedd yn agor. Nid yn annisgwyl roedd yn cynnwys nifer o 'extras' nad oedd ar gael i'r dyn cyffredin (i'r graddau y gellid dsgrifio perchnogion Alvis fel rhai 'cyffredin!). Un odrwydd oedd y cwmpawd a osodwyd ar y dashfwrdd - adlais o gefndir morwrol y Diwc efallai - neu ddiffyg ffydd yn ei *chauffer*!

W.J. a R.W.

Cylch Meithrin Y Garth

Mae Cylch Meithrin newydd sbon yn cychwyn ym mis Medi. Bydd y Cylch ar agor o 8yb tan 4yp bob dydd. Lleolir y Cylch yn Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf a bydd y Cylch yn cynnig gofal cofleidiol i blant meithrin Ysgol Gwaelod y Garth.

Person Cyswllt am ragor o wybodaeth -

Kim Lewis-Davies– 07462946181

Er mwyn cofrestru diddordeb ar gyfer mis Medi cysylltwch â

cylchmeithrinygarth@gmail.com
Trydar @CylchGarth

mudiad meithrin

Gwahoddir chwi yn gynnes i oedfa sefydlu'r

PARCHG. DDR. ROSA HUNT

(Salem, Tonteg a Choleg y Bedyddwyr)
yn Weinidog y Tabernacl,
Yr Ais, Caerdydd

Dydd Sadwrn
Medi 17
3yh

TRAED MAWR

Clwb rhieni a phlant rhwng 18 a 36 mis oed

Dewch i gymdeithasu a siarad Cymraeg drwy chwarae, stori a chân

I gofrestru ewch i https://bookwhen.com/courses-garth-olwg

BOB DYDD MERCHER 14.09.22 AM 14 WYTHNOS 1.30-3.00yp £28.00

Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
St Illtyd Rd, Church Village, CF38 1RQ
01443 570075

---

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cylch Meithrin

Newydd!!

Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton

Canolfan Gymunedol Cilfynydd, CF37 4NR

Yn agor 12fed Medi, 2022!!

Gofal plant cyfrwng Cymraeg i blant 2 - 5 oed

Dydd Llun - Dydd Mercher

9.30 - 11.30yb (oriau cychwynnol nes ein bod wedi cofrestru)

Ffioedd: £10.00 y sesiwn

E-bostiwch cylchmeithrin-cilfynydd@outlook.com i gofrestru

Dilynwch ni ar Facebook @cylchcilfynydd

CROESO I BAWB!

Mae'r Cylch Meithrin yn lle gwych i blant chwarae a datblygu yng nghwmni plant eraill, mewn awyrgylch cyfeillgar a Chymreig.

Cyfle i'ch plentyn:

- Cymdeithasu a gwneud ffrindiau bach newydd
- Dysgu caneuon Cymraeg a gwrando ar storïau
- Dysgu trwy chwarae mewn awyrgylch positif, cyfeillgar a Chymreig
- Dechrau ar ei daith trwy addysg Gymraeg

/MudiadMeithrin @MudiadMeithrin www.meithrin.cymru

FFAIR HAF CANOLFAN GARTH OLWG

Am ddim!

DIGON O ADLONIANT A HWYL I'R TEULU CYFAN

Halibalw Miwsig – Clap a chân

Gweithdai – Canu, Dawnsio, Drama i blant, Iwcs

Yr Urdd – Gweithgareddau chwaraeon

Citrus Art – Sgiliau syrcas

Sesiynau Oedolion – Gwnïo, Ipad's, Trefnu blodau, Uwchgylchu

Matthew Williams – Diddanwr plant

23-07-22 10-4

CANOLFAN GARTH OLWG CENTRE
GARTHOLWGLLC
HEOL SANT ILLTUD,
PENTRE'R EGLWYS, CF38 1RQ
01443 570075

Garth Olwg

Rydym yn RECRIWTIO!

SWYDDOG Y DDERBYNFA (RHAN AMSER)

YDYCH CHI'N...

- frwd?
- weithgar?
- gyfeillgar?

CYSYLLTWCH Â JAYNE AM FWY O WYBODAETH NEU I GAEL SGWRS PELLACH:

jayne.b.rogers@rctcbc.gov.uk
01443 570075